

ECO'r Wyddfa

Rhif: 452
Mawrth 2017
Pris: 70c

Gwaith celf plant lleol yn darlunio'r Llwybr Llechi



Mae gwaith celf sydd wedi'i ysbrydoli gan ymweld ag ardaloedd y chwareli llechi yng ngogledd Cymru, i'w weld yn Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis tan 30ain Ebrill 2017.

Toeau a phowlenni bach wedi eu gwneud o lechfaen mân yw rhai o'r pethau sydd yn cael eu cynnwys yn yr arddangosfa, sydd wedi ei gwblhau gan blant o 6 ysgol ar hyd y llwybr llechi - taith gerdded gyffrous, 85 milltir o hir drwy ardal llechi Eryri, fydd yn agor ym mis Hydref 2017.

Fel rhan o waith cychwynnol y prosiect, mae plant ysgol wedi bod yn dysgu am eu hardal trwy weithio ar brosiectau celf a ysbrydolwyd gan ymweliadau maes i safleoedd chwareli llechi ar hyd y llwybr.

Mae'r llwybr wedi cael ei ddatblygu gan Aled Owen, sy'n wreiddiol o Dregarth, er mwyn annog pobol leol i gymryd rhan yn eu cymunedau ac i ddysgu mwy am y diwydiant a'r hyn sydd ar eu stepan drws. Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Magnox, Cronfa CAE Parc Cenedlaethol Eryri ac ystod o ymddiriedolaethau, grwpiau a chwmnïau cenedlaethol a lleol i roi hwb ddechrau'r prosiect.

Dywedodd cydlynnydd y prosiect, Aled Owen: "Mae'r llwybr yn arwain pobl i edrych ar enghreifftiau o'n gorffennol diwydiannol ac yn ategu gwaith sy'n cael ei wneud gan Gyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac eraill i sicrhau statws Treftadaeth y Byd ar gyfer cymunedau llechi Eryri. Rydym yn ddiolchgar i'r holl arianwyr sydd wedi gwneud y prosiect hwn yn bosibl ac sydd wedi galluogi cymaint o blant lleol i ddysgu ychydig mwy am eu gorffennol diwydiannol anhygoel yr ardal yma."

Mae Anita Daimond, trefnydd addysg y project, a Jwls Williams, artist wedi mynd â dros 300 o blant allan ar hyd y llwybr llechi er

mwyn creu pecyn o waith 2D a 3D er mwyn helpu i ddehongli'r prosiect. Ar 14 a 15fed Chwefror, daeth nifer o'r disgyblion a gymerodd ran yn y prosiect draw i'r amgueddfa ar gyfer deuddydd arbennig i gael gweld eu gwaith o amgylch yr amgueddfa ac i rannu profiadau a'i gilydd. Roedd hyn yn cynnwys adeiladau tyrrau llechi, helpa drysor a perfformiad gwych gan Ysgol Llanllechid am Gôr Merched Chwarel y Penrhyn yn ystod y Streic Fawr.

Dywedodd Anita Daimond: "Mae hi wedi bod yn wych i weithio gyda Jwls i fynd â disgyblion allan i ddysgu am eu hamgylchedd lleol a defnyddio celf i'w helpu i archwilio eu hanes diwylliannol. Rydym yn falch iawn y bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu gweld y gwaith celf y disgyblion a ysbrydolwyd gan eu hymweliadau yn cael eu harddangos yn yr Amgueddfa Lechi".

Dywedodd Dafydd Roberts o Amgueddfa Lechi Cymru "Rydym yn falch o gefnogi prosiect Llwybr Llechi Eryri gan y bydd yn hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol ein hardal a dod â mwy o ymwelwyr ac incwm gwerthfawr. Gan fod y llwybr yn mynd trwy yr Amgueddfa, rydym yn edrych ymlaen at groesawu pobl fel eu bod yn dysgu mwy am hanes y diwydiant llechi - diwydiant sydd wedi rhoi to i'r byd - cyn parhau ar eu taith i leoliadau eraill ar y llwybr".

Mae'r arddangosfa i'w gweld yn yr amgueddfa tan 30ain Ebrill 2017. Mae mynediad am ddim.

Dilynwch datblygiad Llwybr Llechi Eryri ar twitter

@ snowdoniaslate1 a Facebook neu ar y wefan

www.snowdoniaslatetrails.org

www.snowdoniaslatetrails.org/

Hefyd ar www.amgueddfa.cymru/llechi

www.amgueddfa.cymru/llechi



Dilynwch ni ar facebook

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 452
Mawrth 2017**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifon Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Ebrill	19 Mawrth	31 Mawrth	Cwm y Glo
Mai	16 Ebrill	28 Ebrill	Deiniolen
Mehefin	14 Mai	26 Mai	Brynrefail
Gorffennaf/Awst	18 Mehefin	30 Mehefin	Bethel

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf ar ran tîm cynhyrchu y gyfres 'Garddio a mwy' ar S4C, sy'n dychwelyd yn y gwanwyn am gyfres arall.

Y tro hwn, bydd ein garddwyr, Iwan a Sioned Edwards yn ymadael yn achlysurol â'u gardd yn Sir Ddinbych i gynnig help llaw i arddwyr sy'n chwilio am gymorth i gwblhau rhyw joban neu 'i gilydd yn yr ardd, a hynny tra'n sgwrsio'n gyffredinol am arddio wrth gwrs!

Yn ogystal a gerddi preifat, rydym hefyd yn agored iawn i glywed am brosiectau garddio cymunedol neu grŵpiau lleol, eto a hoffai fewnbwn gan y tîm.

Ac ar wahan i'r garddio, mae eitemau sy'n hybu ein gwerthfawrogiad o'r natur sydd o'n cwmpas yn rhan allweddol o'r gyfres wrth gwrs, gyda phwyslais arbennig ar gadwraeth. I'r perwyl yma, bydd Meinir Gwilym unwaith eto yn ymweld â lleoliadau difyr, i gyfarfod ag unigolion neu grŵpiau, ac i ryfeddu ar rywogaethau – planhigiol ac anifeilaidd! – ymhob cwr o'r wlad.

Felly, yn arddwyr neu'n naturiaethwyr, anogwn eich darllenwyr i ddod i gysylltiad os oes unrhywbeth yr hoffon nhw ei rannu gyda'r gymuned ehangach ar draws Cymru.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig syniad am eitem, dylid ebostio garddioamwy@cwmnida.tv, ffonio 01286 685300 neu adael neges ar ein tudalen facebook (facebook.com/garddioamwy).

Cofion cynnes,
Tim Cwmni Da.

HELFA DRYSOR HEN FFILMIAU

Mae yna apêl arbennig i hen luniau ffilm cartref: y gwisgoedd diddorol, hetiau rhyfeddol, cymeriadau neilltuol a cheir clasurol sy'n croesi'r sgrin yn eich lolfa! Efallai bod y ffilmiau hyn yn cael eu dangos ar gyfer achlysuron teuluol neu ddigwyddiadau cymunedol sbesial, er mwyn i bawb gael chwerthin a chofio. Ond yn awr mae yna gyfle i'w rhannu gyda'r genedl.

Os oes hen ffilmiau cine difyr gyda chi, yn llechu mewn atig neu'n casglu llwch mewn garej, fe hoffai cwmni teledu Silent Movies o Gaerdydd glywed amdanynt. Mae'r cwmni yn cydweithio hefo Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, sydd yn rhan o Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, ar raglen deledu i BBC Cymru sy'n gobeithio dadorchuddio rhai o drysorau sinematig coll y genedl.

Ers y 1920au mae pobl Cymru wedi bod yn croniclo hanes eu tylwyth a'u cymuned ar gamerau ffilm Super 8, Standard 8 a 16mm. Maent wedi recordio delweddau a digwyddiadau sy'n nodweddiadol o'n hanes fel Cymry: carnifal pentref, treialon cŵn defaid, eisteddfod fro, cymanfa ganu, gwyliau hynod Cymreig ar lan y môr neu ar ben mynydd.

Mae nifer o'r ffilmiau hyn eisoes wedi eu casglu a'u gwarchod ar gyfer y dyfodol yng nghasgliad Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru. Mi fedrwch wyllo rhai o'r ffilmiau mwyaf difyr o'ch ardal chi, drwy chwilio map 'Britain on Film' ar wefan y BFIPlayer: <http://player.bfi.org.uk/britain-on-film/map/>

Nod y rhaglen newydd fydd ehangu ar gasgliad presennol yr Archif drwy ddarganfod ffilmiau cartref sydd o bosib heb weld golau dydd ers blynyddoedd. Mae bwriad y cyfarwyddwr Dafydd O'Connor yn un uchelgeisiol: "Rhyngddynt, mae gwneuthurwyr ffilmiau cartref wedi creu cronicl o fywyd y genedl sy'n llawer mwy lliwgar a phersonol na'r hyn y mae unrhyw griw rhaglen ddogfen wedi medru ei recordio. Yn y rhaglen hon ein nod fydd agor archif gudd ugeinfed ganrif y Cymry, gan ddarganfod beth mae'n ddatgelu am ein bywydau oll.'

Os oes hen ffilm wedi ei chreu gan eich teulu neu gymuned yn eich meddiant fe hoffai'r tîm glywed amdani.

Gallwch ebostio movies@silentmovies.media neu adael neges ar y rhif hwn 0370 218 3100.

Duw a wŷr pa drysorau gweladwy sy'n dal i aros i gael eu darganfod o gwmpas Cymru!

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£50: Er cof am Mrs Alys Hughes, Bryn Golau, Waunfawr, gan y genod ar teulu.

£20.00 - rhodd er cof am Eilir, Deiniolen, gan Dafydd, Ellen, Dylan, Gethin ar teulu oll; Er cof annwyl am y diweddar Mrs Grace Ellen Jones - gynt o Glwt y Bont, gan y teulu; Teulu Dafydd Huws, Llanberis; Brenda Jones, Tŷ Ni, Waunfawr (er cof am ei brawd, Billy, o Crawia, Llanrug); Annwen, Arnold a Beryl, Waunfawr, er cof am eu brawd, Adrian; Er cof am Bert Pritchard Jones, 12 Ffordd Flanffynnon, Llanrug. Er cof am Delyth Hughes, Llys Elen, Llanrug (Tandderwen, 6 Fron Goch, Llanberis gynt).

£10: Mrs Phyllis Morris, Bryn Tirion, Rhiwen, Deiniolen; Er cof am Philip Williams (Tŷ Capel Cysegr gynt); Glenys Owen, Bwthyn Isaf, Deiniolen; Miss Louie Pritchard, Dôl Eilian, Llanberis; Ken a Mair Jones, 19 Maes Padarn, Llanberis; John ac Irene, Pant Teg, Waunfawr; Ceri, Ifan a theulu Glan Gors, Llanrug.

£5: Ann Jones, Stryd Newton, Llanberis.



**ORIEL
CWM**

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Llundain
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMBOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882



Un o'r enwau hynny sydd yn codi yn aml wrth drafod grwpiau ifanc addawol yr ardal yw Alfa. Mae Siôn Land a Dion Jones (Ie, dim ond y ddau ohonyn nhw), yn byw yn Llanrug, ac mae eu sain unigryw yn denu sylw gan bwysigion y Sin Roc Gymraeg erbyn hyn. Cam naturiol, felly, oedd i ni fynd ar eu hôl i gael clywed am eu hynnt a'u helynt.

I'r rhai sydd ddim yn eich 'nabod chi, pwy ydi Alfa?

'Da ni'n fand o Lanrug sydd wedi bod yn trio torri mewn i'r Sin ers rhyw flwyddyn rwan. 'Da ni'n chwarae cerddoriaeth blws trwm – mae'n rhaid i ni fod yn reit drwm gan mai dim ond dau aelod sydd yn y band.

Sut wnaethoch chi gyfarfod?

Roedd y ddau ohona' ni'n ffrindiau da yn Ysgol Gynradd Llanrug. Ond 'naethon ni ddim dechrau chwarae offerynnau gyda'n gilydd nes ein bod ym mlwyddyn 8 yn Ysgol Brynrefail. Mi'r oeddau ni'n dau yn chwarae i'r Ymylon cyn i ni ffurfio Alfa.

Sut fuasaech chi yn disgrifio eich sŵn?

Buaswn yn disgrifio sŵn Alfa fel 'blws trwm', sydd yn cynnwys llawer o riffs trwm a 'bluesy'. Er hynny, mae 'na ambell gân ychydig yn ysgafnach. Gan mai dim ond dau ohonom sydd yn y band, mae'r sŵn yn eitha' amrwd. Hefyd, 'da ni'n hoff iawn o synau reit od, felly da 'ni'n arbrofi efo'r rhain mewn caneuon fel '13.11.15'.

Pwy yw eich arwyr cerddorol?

Mae The Black Keys, The White Stripes ac Gary Clark Jr wedi dylanwadu ar sŵn y band. Mae Siôn, y drymiwr, yn hoff o John Bonham ac Taylor Hawkins, ac mae Dion wedi cael ei ddylanwadu gan artistiaid fel Dan Auerbach, a Mike Peters, diolch i'w dad!

Ydy'r ardal leol wedi dylanwadu ar eich sŵn o gwbl?

Mewn ffordd, do! Mae'r ddau ohonom yn teimlo nad oes 'na ddigon o gerddoriaeth 'trwm' yn yr ardal, felly mi'r yda' ni'n wahanol.

Sut le ydi'r ardal hon i fod yn fand ifanc?

Oes, mae 'na gyfleoedd, ond mae angen cynnal mwy o amrywiaeth o gigs. Mae'r un artistiaid yn ymddangos mewn llawer o leoliadau, ac felly mae datblygu fel band o fewn y sin yn anodd.

Pa fandiau eraill o'r ardal ydych chi yn eu hoffi?

O'r ardal hon, 'da ni'n hoff iawn o Castles, ac mae'r ddau ohonom wedi eu gweld nhw'n perfformio yn fyw nifer o weithiau. Mae 'na lawer o fandiau o'r sin ehangach wedi dylanwadu arnom hefyd, fel Cowbois Rhos Botwnnog, ond yn bennaf, Tymbal.

Mi wnaethoch chi ryddhau eich EP cyntaf llynedd, beth sydd gennych chi i ddweud amdano?

Mae'r EP, 'Alfa', yn cynnwys 6 trac gwreiddiol - Intro, Crafangau, Dal Dig, Tomos Rhys, Cofia ac 13.11.15. Mi 'naethon ni ei recordio yn Stiwdio Ty'n Rhos gyda Rhys Jones, ac mae ar gael ar iTunes, yn ogystal ag ar gopi caled.

Beth yw eich cynlluniau yn 2017?

Mae'r ddau ohonom yn edrych ymlaen at 2017 – mi fydd hi'n flwyddyn gyffrous iawn i ni. Mi'r oedd cael chwarae ar noson Gwobrau'r Selar yn fraint i gychwyn arni, a bydd dwy gân newydd yn cael eu rhyddau yn fuan, sef 'Mwgwd' a 'Rhydd', fel rhan o 'Sesiynau Sain'. Robin Llwyd, o Fethel, oedd yn gyfrifol am eu cynhyrchu. Byddwn yn parhau i gigio, ac yn gobeithio denu sylw trefnwyr gigs y tu hwnt i'r ardal hon – yn y de, hefyd, gobeithio! Mi fydd cymryd rhan ym Mrwydr y Bandiau Radio Cymru a'r Eisteddfod yn her, ond yn ffordd dda o ledaenu ein cerddoriaeth i gynulleidfa ehangach. Ond, mae'r ddau ohonom yn hoffi cael bob dim yn berffaith, ac felly mi fyddau ni'n cymryd ein hamser i ddatblygu fel band a gwthio'n hunain i'r cam nesaf.

Beth yw eich uchelgais fel band?

Ein uchelgais y flwyddyn diwethaf oedd cael chwarae ar noson Gwobrau'r Selar, felly mi'r ydan ni'n hapus ein bod wedi cyflawni hynny eleni! Yr uchelgais nesaf fydd cael chwarae ym Maes B, bod yn rhan o brosiect Gorwelion, a chael chwarae ar hyd a lled y wlad. Wrth gwrs, mi fuasai cael ein harwyddo gan label yn wych hefyd.

Yn ystod y mis a aeth heibio ...

- Adroddwyd fod dros £3500 wedi ei gasglu fel rhan o gynllun Snowdonia Giving, sy'n annog ymwelwyr i gyfrannu'n wirfoddol (dim mwy na phunt) wrth archebu lle i aros, talu am fwyd neu gymryd rhan mewn gweithgaredd tra'n aros yn Eryri. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi ieuencid mewn sgiliau cadwriaethol traddodiadol ar y mynyddoedd.
- John Bercow, Llefarydd y Tŷ, yn creu cryn gynnwrf trwy ddatgan y byddai'n 'anaddas' i'r Arlywydd Trump gael hawl i gyfarch y Senedd yn ystod ei ymweliad swyddogol. Y Llywodraeth yn ddiweddarach yn datgan y byddai'r ymweliad yn digwydd yn ystod yr haf, pan na fyddai'r Senedd mewn sesiwn, a hynny'n 'osgoi embaras'. Mae osgoi embaras gymaint pwysicach na glynu wrth egwyddorion.
- Newyddion da o'r Unol Daleithiau! Mae ymchwilwyr meddygol yn credu y gall aeron bach coch o goeden bupur yng Nghoedwig yr Amazon fod yn gyfrwng i wrth-weithio yn erbyn bacteria sy'n gwrthsefyll anti-biotics. Credir y gall cemegau o fewn yr aeron fod yn fodd o ymladd MRSA.

- Y Llywodraeth yn ennill y bleidlais o blaid Erthygl 50 er fod nifer o Aelodau Seneddol Llafur wedi herio gorchymyn eu harweinydd, a gorfodi Jeremy Corbyn i ail-wampio ei 'gabinet' eto fyth. Carfan sylweddol yr SNP yn canu 'Ode to Joy', Anthem yr Undeb Ewropeaidd tra'r bleidlais yn cael ei chyfrif.
- Adroddiad yn awgrymu y dylai awdurdodau peldroed gomisiynu ymchwili'r cysylltiad posib rhwng penio peldroed a niwed niwrolegol. Datgelwyd yn ddiweddar fod aelodau o garfan Bill Shankly yn nhim Lerpwl yn ystod y 1960'au yn dioddef o dementia. Mae teuluoedd cyn-chwaraewyr fel Jeff Astle a Nobby Stiles yn teimlo fod yr awdurdodau yn llusgo'u traed yn yr achos oherwydd eu bod yn ofni achosion o iawndal.
- Grugieir wedi eu gweld ar y Cefn Du am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd. Oes gobaith eu bod wedi dychwelyd i nythu?

Merched y Wawr



Croesawyd yr aelodau yn gynnes iawn gan Gwyneth ein llywydd, ac aeth ymlaen â'r newyddion a ddaeth i law. Cydymdeimlwyd hefo Anne ar golli ei modryb ac Elizabeth Blaen Parc ar golli perthynas agos. Anfon cofion at Rhian sydd wedi torri ei garddwrn ac yn falch iawn o weld Gwyneth yn ôl wedi ei gwaeledd. Llongyfarchiadau i'r tim bowlio deg a ddaeth yn gyntaf yn rhanbarth Arfon, ac i Falmai gael y sgor uchaf ar y noson - tipyn o gamp! Ymlaen i gystadlu ym mis Mehefin yn erbyn gweddill o dimau'r gogledd! Dosbarthwyd bagiau'r aur yn ogystal a cherdyn aelodaeth am oes i'r holl aelodau. Pa mor bell fydd y bagiau'n teithio tybed? Penderfynwyd y bydd y trip diwedd tymor yn cael ei gyplysu â dathliadau'r aur, a gobeithir trefnu i fynd i fyny'r Wyddfa ar y tren a chael te bach wedyn. Cyflwynwyd rhoddion o bopty meicrodon a thebot i Gapel Cysegr er budd yr holl gymdeithasau fydd yn defnyddio'r festri. Noddwyd hyn gan y Loteri Genedlaethol. Llawer o ddiolch i'r Loteri. Penderfynwyd rhoi rhodd arianol i Dafydd Oritt, disgybl o'r 6ed dosbarth yn Ysgol Brynrefail, i'w gefnogi ar ei daith i Batagonia ac edrychwn ymlaen at gael yr hanes ganddo pan ddychwela. Pob hwyl iddo. Digwyddiadau Gŵyl Ddewi yn y pentref:

- Cyngerdd yn y Neuadd ar Nos Wener 1af o Fawrth
- Cinio yn y Neuadd ar 24ain o Chwefror

Cafwyd cefnogaeth yr aelodau i ddefnyddio lluniau a dogfennau yn y Prosiect Treftadaeth ar ddydd Sadwrn 26ain o Chwefror. Y wraig wadd oedd Sian Hughes ac fe gafodd groeso cynnes iawn gan yr holl aelodau. Bu Sian yn aelod gwerthfawr iawn o Ferched Y Wawr Bethel am flynnyddoedd cyn iddi symyd i fyw i Garndolbenmaen ac roedd pawb

yn edrych ymlaen at ei sgwrs. Ganwyd Sian yn Ninbych ac yna symudodd y teulu i Lanberis cyn dod i Fethel pan oedd hi'n 15 oed. Nyrs oedd eisiau bod erioed a dyna fu ei gyrfa mewn gwahanol safleoedd yn ogystal a bod yn fam i 3 a nain i 7 o blant. Bellach mae wedi ymddeol ond mor brysur ac erioed a rhestra ei diddordebau fel canu a gwarchod! Aeth Sian ymlaen i amlinellu ei gyrfa o ddechrau hefo St Johns yn Llanberis ac yna gwneud ei chwrs nyrsio yn Ysbyty Llandudno. Ymlaen wedyn i'r Eryri a'r Cottage yng Nghaernarfon, lle roedd y gwaith yn galed iawn ond yn lot o hwyl wrth ddod i adnabod y cleifion. Mae newidiadau lu wedi bod ym myd nyrsio – yn enwedig y dillad! a chofia gyda balchder gael y bathodyn pan basiodd yn SRN a'i wisgo ar ei gwasg. Erbyn hyn mae mwy o waith papur i'w wneud, sy'n rhoi chwaneg o bwysau ar staff, a'r cyffyrddiadau personol yn cael eu colli. Gwahanol iawn oedd hi yn yr 80au pan oedd pethau'n fwy personol, a chefnogi'r cleifion a'u teuluoedd yn rhan bwysig o waith nyrs, yn enwedig o weithio hefo'r Cofis! Soniodd am Iechyd Merched ac fel mae pawb yn mynd yn hŷn pa mor bwysig yw ymarfer y corff, cerdded y grisiau a bwyta'n iach. Rhoddodd y neges drosodd gyda hiwmor ond yn gwneud i ni gyd sylwi y gallwn helpu ein hunain ac eraill. Diochwyd iddi gan Mair Price am roi darlun hanesyddol i ni o'i bywyd, ei chynghor a'i phrofiad. Y cyfarfod nesaf fydd Swper Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Criced Bangor am 7.30. Bydd y bws yn cychwyn o Tan y Buarth am 7 ac yn codi yn y manau arferol. Nid yw'n rhy hwyr i roi eich enw i ddod, cysylltwch â Mary, Anne neu Gwyneth.

Llwyddiant Offerynnwr



Ym Mhencampwriaethau unigolion, deuawdau a phedwarawdau bandiau pres gogledd Cymru yn ystod Chwefror, daeth Owain Llestyn, aelod o Fand Llanrug, gartref efo dwy o'r prif wobrwyon. Daeth yn fuddugol ar y slow melody gyda datganiad o "Russalka's song to the moon", ac yna enillodd eto ar yr air varie gyda "Napoli". Llongyfarchiadau iddo ar ei lwyddiant. Mae Owain yn brysur gwneud enw iddo i hun ymysg offerynnwr pres ifanc gorau Cymru.



GRANTIAU: Denwyd dwy grant ychwanegol i'r pentref yn ddiweddar. Diolch i Sion am ei waith 'tyrchu'. Cyfranodd Cwmni First Hydro £1000 tuag at bwrcasu projector newydd i'r Neuadd. Diolch i Amanda a Gwyn am ei osod. Efallai bydd dda ei gael o ar gyfer y Fanzone pan aiff Cymru i Gwpan y Byd, Rwsia. Yr ail oedd rhodd o £520 tuag at y clwb pêl-droed o Gronfa Gymunedol Cwmni Watkin Jones.

Parhad BETHEL

LLONGYFARCHIADAU: I ddau o bobl ifanc y pentref ar eu llwyddianau draw yn y Brifysgol ym Mangor. Derbyniodd Manon Elwyn, Bryn Ogwen radd M.A. yn y Gymraeg gyda’g Anrhydedd, ac felly’n efelychu ei brawd yn yr un maes. Mae Manon bellach yn rhan o’r Adran Gyfieuthu gyda Chyngor Sir Gwynedd.

Derbyniodd Gethin Griffiths, Stâd Eryri radd M.A. gyda Rhagoriaeth mewn Cerddoriaeth. Mae Gethin wedi ei wahodd i ddilyn cwrs Doethuriaeth mewn Cerddoriaeth. Mae Gethin yn amlwg iawn ei gyfraniad ym myd Cerddoriaeth yn lleol fel perfformiwr, cyfansoddwr a chyfeilydd. Bu hefyd yn cyfarwyddo sioeau i blant draw yn y Galeri. Ar hyn o bryd mae’n magu profiad gyda chwmmi theatrig y Fran Wen.

Y mae sawl cymdeithas ac achos lleol wedi elwa o gyfraniad y ddau berson talentog yma a dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol.

I Gethin

Ei orwel, arddel fel cerddor –
agwedd

all agor sawl llifddôr;

â gweld cymuned yn gôr

o antur, ynta’i mentor.

LLONGYFARCHIADAU: I Brifathrawes, Staff ac yn enwedig y plant yn Ysgol Gynradd, Bethel ar eu dyfarniad o’r radd flaenaf (Gwyrdd) yn yr Asesiad Cenedlaethol. “ Oriau gwaith dry’n erwau gwyrdd.”

ALLWCH CHI HELPU?: Ar hyn o bryd mae rhyw 140 o gopiau o Eco’r Wyddfâ yn cael eu prynu ym mhentref Bethel pob mis. Mae’r papur yn cael ei werthu yn y Swyddfa Bost ac yn cael ei ddanfôn o ddrws i ddrws gan griw teyrngar o ddsbarthwyr. Mae cryn ganmol ar gynnwys amrywiol yr Eco gan gofio mae gwirfoddolwyr sydd wedi cynnal y papur o’r dechreuad. Mae hyn yn ddipyn o ymroddiad, ac ar sawl aelwyd efallai mai dyma’r unig Gymraeg

a ddarllenir. Y mae’r papur – yn gyfochrog a’i gwefan – yn record o hanes a datblygiad yr ardal arbennig hon. Ein papur NI ydyw hwn. Ydych chiwi ddarllenwyr ffyddlon yn gwybod am rai – efallai drws nesaf – fuasai’n hoffi derbyn yr Eco? Os felly cysylltwch ag un o’r llu ddsbarthwyr neu eu cyfeirio at y Post. Y dosbarthwyr yw: Manon (Stad Eryri), Elen (Stad Rhoslan), Llinos a Dafydd (Parc y Wern), Seiriol Owen (Tan y Cae), Ann Elis (Gwaelod Pentref), Richard (Stâd y Ddol) a Glenys (Llwyn Eithin). Mwy’r gwerthiant, mwy’r datblygiad.

DIOLCH: ‘Dymuna Margaret, Stephen a Robert (Tŷ Capel Cysegr gynt) ddiolch i lawer am eu caredigrwydd a’u cydymdeimlad o golli mab a brawd hynod – Philip David Williams – yn ddiweddar. Diolch hefyd am y cyfraniadau ariannol er cof am Philip a rannwyd rhwng Uned yr Arennau, Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty’r Alltwen. Diolch i staff y manau hynny am eu gofal dros Philip dros gyfnod maith.

Yn yr un modd hoffai Megan, Colin a Paul teulu agosaf y diweddar Danny Humphries ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu colled. Diolch i bawb a gyfranodd yn ariannol tuag at Ymchwil y Galon (Gwynedd) er cof am Danny. Gwerthfawrogwyd cyfraniadau y Parchedigion Carol Roberts, Gwynfor Williams, R.E. Hughes ddiwrnod yr angladd a Robin Jones am gyfeilio. Yr un modd, diolch i gwmni Roberts ac Owen, Penygroes am eu trefniadau trylwyr.

BYDDWCH YN OFALUS: Bu lladrad o fodur ar Stâd y Ddol yn ystod y mis, ac arwyddion o rywun/rywrai yn ceisio torri i mewn i dŷ yn Saron. Gofynnir i bawb fod yn ‘lygaid gwyllo’ a gadael i’r Heddlu wybod am unrhyw ymddygiad amheus. Gyda’n gilydd efallai gallwn ddatrus y broblem cyn iddi ymledu mwyach. Mae’r heddlu yn crwydro’r strydoedd yn ystod

oriau’r nos.

GWAHODDIAD: Hoffai pwyllgor y Neuadd ddiolch i’r rhai gefnogodd y Cwis ddechrau’r mis. Gwnaed elw tuag at gostau rhedeg y neuadd. I ddathlu Gŵyl ein Nawddsant mae cyngerdd wedi ei drefnu yn y Neuadd Goffa ar nos Wener, Mawrth 3ydd am 7.30pm. Ymysg yr artistiaid bydd Côr Dre’, Band Ieuenticid Llanrug a Chôr Plant Ysgol Bethel.

ETHOLIAD: Gellir cadarnhau bellach y bydd etholiad ar gyfer y Cyngor Sir dros ward Bethel ym mis Mai. Hyd yn hyn y ddau ymgeisydd yw Sion Jones (Llafur) a Gareth Griffiths (Plaid Cymru). Diolch i’r ddau am eu parodrwydd i sefyll fel cynhyrchiolwyr a dymuniadau gorau i’r ddau. Braf fuasai llenwi y sedd wag ar y Cyngor Cymuned yr un adeg a chychwyn y cylch nesaf gyda chynhyrchiolaeth lawn ar bob lefel o lywodraeth leol.

O’R CYNGOR

CYMUNED: Dau brif fater oedd yn ymwneud â Bethel. Daeth dwy swyddog o Adran Gludiant Gwynedd drawi drafod Gwasanaeth Bysiau y Fro. Ar hyn o bryd mae pob gwasanaeth ar wahan i rif 85 dan gontract i’r Cyngor Sir. Mae’r cyngor yn talu 36% o’r gost gyfan o £1.5 miliwn i gynnal y gwasanaethau. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau Bethel i Fangor a Chaernarfon yn dderbyniol. Y brif gŵyn yw diffyg gwasanaeth bws wedi 6pm. Y tacsî am bris bws. Dywedodd y ddwy nad oedd gan y cwmnïau ddiddordeb mewn rhedeg gwasanaeth nos oherwydd diffyg niferoedd. Oes lle i gwmni lleol redeg gwasanaeth bws-mini yn y fro? Mae holiadur wedi ei baratoi gan y Cyngor Sir ac ar gael ar y bysiau.

Roedd mwy o bryder ynglyn a chais cynllunio cae tu cefni Gapel Bethel. Bu cryn wrthwynebiad, ond bellach mae’r datblygwr wedi addasu y cais gwreiddiol. Derbyniwyd llythyr gan Uwch Swyddog Datblygu Gwynedd yn

awgrymu fod y datblygwr wedi ateb y cwynion drwy ailwampio y cais – ar wahan i un pwynt allweddol. Y mae’r datblygwr am wneud cais i Ddŵr Cymru am hawl cysylltu’r dŵr gwyneb o’r tir i’r brif beipen garthffos. Dyma un peth sydd wedi creu yr holl broblemau ym Methel dros y blynyddoedd. Siaradodd cynhyrchiolwyr Bethel ar y cyngor yn gryf yn erbyn y bwriad yma. Mae’n ymddangos felly mai penderfyniad Dŵr Cymru ar y mater fydd yn penderfynu os gaiff y cais ganiatad. Disgwylir penderfyniad ym mis Mawrth. Mae’n fwriad ceisio trefnu cyfarfod cyhoeddus a gwahodd Dwr Cymru i drafod system garffosiaeth Bethel, cyn i’r Cynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu ym mis Mai.

Y GYMDEITHAS

LENYDDOL: Diddos. Difyr. Doniol. Dyna groniclo cyfarfod mis Chwefror pan groesawyd ‘Tywysydd Caernarfon’ Emrys Jones atom. Cawsom daith o gwmpas y dre’ gan stelcian i mewn i ambell gornel dywyll. O dai crand, tafarnau, cymeriadau, iaith a chell y crogi. Ysbrydion y Dre’. Y Castell, wrth reswm – ac ymateb sawl Yank! Cyfeiriodd hefyd at adfywiad y Dre’ lle bu optimistiaith y Cofis – ‘dim byd yn digwydd yn Dre’ – yn cael ei gwestiynu gan ddigwyddiadau fel Gŵyl Caernarfon a Gŵyl Fwyd Caernarfon sy’n denu miloedd i ymweld. Ond, pwysleisiodd Emrys fod rhai o nodweddion ffraeth y Cofis ‘yma o hyd’.

GWELLHAD BUAN: Mae ambell un yn dioddef ar hyn o bryd. Dymunwn y gorau iddynt. ‘Mi wellaf pan ddaw’r gwanwyn’. Noson yng Nghwmni Awyr Las i’w chynnal yn y Neuadd Goffa am 6.30 Nos Sadwrn, 26ain o Fawrth. Pris mynediad: £15 i gynnwys pryd bwyd dau gwr. Bydd elw’r noson yn mynd tuag at Wyl Bethel, gyda rhodd ariannol i Awyr Las. Am fwy o fanylion a thocynnau, cysylltwch efo Nia Campbell ar 01248 670105 neu 07901003232.

AVW Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche

BOSCH Service

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader

01286 673559

For everything your car needs.

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202



Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Ionawr oedd Efan Jac Roberts gyda rhif 20. Llongyfarchiadau!

Cydymdeimlad – Anfonwn ein cydymdeimlad at Jean a Wil ar teulu, 24 Bryn Tirion, yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw Terence, brawd Jean, yn frawychus o sydyn dydd Sul, Ionawr 22ain, yn 48 mlwydd oed.

Dymuna Jean ar teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd.

Elusen Leukaemia Cynhelir noson arbennig yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, nos Wener, Mawrth 3ydd, am 7:30. Bydd Anti Jean yn cael siafio ei gwallt i gyd i ffwrdd! Bydd yr arian a gesglir yn cael ei gyflwyno i Bryn Roberts o Benisarwaen sydd yn brwydro'n ddewr iawn yn erbyn Leukaemia. Dymuna ddiolch i bawb sydd wedi ei noddi yn barod ac os hoffai unrhyw un arall ei noddi mae croeso i chwi wneud hynny trwyddi hi ar 01286871993 neu Anti Liz ar 07833353338. Hoffai ddiolch yn ogystal i Aneurin am ganiatáu i ni ddefnyddio Dolbadarn ar gyfer yr achlysur yma ac i Ray John sydd wedi cytuno i gynnal disco /carioci ar y noson. Dewch draw i'w chefnogi a chael noson o hwyl ar yr un pryd. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

Ysgol Penisarwaen Gymuned

Eisteddfod yr Urdd 2017 - Mae'r plant wedi bod yn brysur yn paratoi at wahanol gystadlaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunwn bob lwc iddynt yn yr Eisteddfod

Gylch yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, Mawrth 4ydd

Daeth Mr Andrew Setatree i gynnal Gwasanaeth Boreol yn yr Ysgol dydd Iau. Ionawr 26ain. Hwn oedd y tro olaf i Andrew ymweld â ni ar gyfer y Gwasanaeth boreol gan y bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ym Mhenllyn ddechrau mis Mawrth. Dymunwn y gorau iddo gan ddiolch o galon iddo am alw yn yr ysgol yn gyson.

Dathlu - Byddwn yn dathlu dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth 1af. Bydd y Plant yn cael cyfle i ddod i'r Ysgol mewn gwisg Gymreig. Byddwn yn cael cinio blasus cig oen Cymreig. Am 2 o'r gloch y prynhawn byddwn yn dathlu gyda'r Gymuned ac mae'r Pwyllgor Neuadd wedi trefnu te bach gyda phaned a chacennau a bydd yr adloniant yng ngofal rhai o blant yr Ysgol. Croeso i bawb ymuno â ni.

Diwrnod y Llyfr - Byddwn yn dathlu Diwrnod y Llyfr dydd Iau, Mawrth 2ail. Bydd cyfle i'r plant wisgo i fyny fel cymeriad allan o'u hoff lyfr.

Dathlu Chwarter Canrif Yn ystod mis Hydref 2017 bydd Ysgol Gymuned Penisarwaun yn dathlu chwarter canrif ar y safle presennol. I ddathlu'r achlysur mae Cymdeithas Cyfeillion yr ysgol wedi cytuno i drefnu cyfres o weithgareddau dros y misoedd nesaf er mwyn ceisio codi swm sylweddol o arian er gyfer gwneud gwelliannau a phrynu adnoddau er mwyn moderneiddio'r dosbarthiadau ar gyfer y chwarter canrif nesaf.

Un o'r gweithgareddau sydd ar y gweill yw Ocsiwn Addewidion. Rydym wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn nawdd gan Gwmni Santander, a bydd y cwmni hwn

yn gwneud cyfraniad punt am bunt ar yr holl elw a wneir yn ystod yr Ocsiwn.

Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw nawdd neu gyfraniad gan unrhyw unigolyn, gwmni neu fusnes er mwyn sicrhau llwyddiant yr Ocsiwn hon. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth

Ysgol Sul Bosra Anfonwn ein dymuniadau gorau i Megan Ebrill wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysfa wella, Megan a brysfa'n ôl atom. Roeddem yn falch o gael croesawu Ifan, aelod newydd, atom a gobeithio y cawn ei gwmni hwyliog.

Fel aelodau'r Ysgol Sul yma yn Bosra, dymunir diolch i Andrew Setatree, ein Gweithiwr Ieuencid gyda Chynllun EFE. Diolch am ei holl waith dros yr wyth mlynedd a hanner diwethaf ac am ei barodrydd i ddod atom yn gyson i'r Ysgol Sul. Pob dymuniad da, Andrew, yn eich swydd newydd fel Cymhorthydd Gweinidogaethol gyda Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ardal Pwllheli a Phen Llŷn. Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn ar Fawrth Sed – wedi gwyliau hanner tymor.

Pwyllgor Neuadd Gymuned

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blyneddol nos Lun, Ionawr 30ain. Darllenwyd cofnodion ac fe'u cafwyd yn gywir a chafwyd mantolen drylwyr gan y Trysorydd. Tynnwyd Clwb Cant Chwefror ar enillwyr yw: Jean Roberts, Treflys a Robin Griffith, Groeslon Isaf.

Diolchwyd i bawb sy'n aelodau ffyddlon o'r Clwb Cant ac mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno am £6 y flwyddyn. Mae'n hwb sylweddol tuag at y

gost o reoli'r Neuadd Gymuned. Atgoffir y ffyddloniaid ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth.

Budreddi Baw Cŵn Er gwaethaf yr apêl i berchnogion cŵn ynghylch baw o gwmpas y pentref mae'n amlwg nad yw rhai yn cymryd dim sylw o'r troseddu gan fod y palmant o Lys y Gwynt i Fryn Eglwys yn dal yn broblem. Rhyw ddiwrnod, gobeithio, bydd rhywun yn cael ei ddal ac yn cael ei ddirwyo o £100 - £1000. Y mae baw cŵn yn gallu achosi afiechyd Toxocariasis, gan effeithio'r llygaid a pheri dallineb. Felly os gwelwch yn dda codwch y baw a'i roi yn y bag a'i roi yn y bin pwrpasol wrth ymyl Bryn Eglwys. Diolch am eich cydweithrediad.

Gŵyl Ddewi Bnawn Mercher, Mawrth 1af, am 2.00 yn y Neuadd Gymuned, cynhaliwyd 'Dathlu Gŵyl Ddewi' gydag eitemau gan blant yr ysgol ac aelodau Pwyllgor y Neuadd Gymuned. Darparwyd paned a bara brith a theisennau cri ac roedd raffl ar werth. Estynnwyd croeso cynnes i rieni'r plant ynghyd â theulu a ffrindiau. Pris £2. Tynnwyd Clwb Cant Mawrth yno a bu'n braf cael dathlu dydd ein Nawddsant a chael cymdeithasu.

Eisteddfod Bentref 2017 Cynhelir yr Eisteddfod ar nos Fercher, Gorffennaf Sed yn y Neuadd Gymuned. Cynhelir Pwyllgor nos Lun, Mawrth 20fed (wedi ei newid o 27 Mawrth) am 7.00 o'r gloch i ddewis testunau – felly dowch â'ch lyfrau gyda chwi. Edrychir ymlaen am Eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

Tâl am yr Eco Bydd Ann Ifans yn casglu tâl yr Eco – sef £7 am flwyddyn - gan ei chwsmeriaid. Diolch am y gefnogaeth.



GRIFFITH, WILLIAM DYLAN (Dylan Griffith) (Dylan Llys)

Dymuna Meinir, Rhys, Dewi, Elliw a Lauren ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod a thad cariadus. Diolch am yr holl gardiau, llythyrau, galwadau ffôn ac ymweliadau ac am y rhoddion hael er cof am Dylan tuag at Feddygfa Waunfawr ac Ymchwil Cancr (Melanoma). Diolch i'r Parchedig Ddr. Carol Roberts am ei gwasanaeth, i'r Parchedig Ganon Emlyn Williams, ar Parchedig Marcus Robinson am eu cyfraniad hwythau a'u teyrngedau, ac i Dr. William Munro am ei waith wrth yr organ. Diolch hefyd i Popty Lleuar am y lluniaeth. Dymunwn hefyd ddiolch i Dr. Esyllt am ei gofal di-flino ac i holl staff Meddygfa Waunfawr a Llanrug am eu cymorth a'u caredigrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch arbennig i holl staff Dylan Griffith am eu cymorth ddydd yr angladd a thrwy gydol y flwyddyn. Bydd Meinir ar teulu yn parhau gyda'r busnesion gan gynnwys Dylan Griffith, Cyfarwyddwyr Angladdau a Gwaith Coffaol Llanrug.

BERT

Fore dydd Sadwrn, Ionawr 21ain yng Nghapel Coch, Llanberis, cynhaliwyd gwasanaeth angladd Bert Pritchard Jones, 12, Ffordd Glanffynnon Llanrug. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig John Pritchard a'r Parchedig Marcus Robinson. Cafwyd datganiad gan Gôr Meibion Dyffryn Peris ynghyd â thair teyrnged. Cafwyd dwy deyrnged bersonol ac o'r galon gan ei wŷr a'i wyres, Gareth a Ceri. Isod gweler dalfyriad o deyrnged Arwel (cefnider) sy'n olrhain peth o hanes Bert.

Ganwyd Bert Pritchard Jones ar yr 11ed o Fehefin, bron i naw deg o flynyddoedd yn ôl, yn ail blentyn i Mem a Johnny Pritchard Jones. Hanai Mem o deulu Minffordd, Llanrug, yn un o bedwar o blant Griffith a Mary Jones. Cafodd Bert a Cledwyn, ei frawd hŷn addysg yn Ysgol Gynradd Llanrug cyn llwyddo i basio'r "scholarship" i Ysgol Brynrefail. Tra yn Ysgol Brynrefail fe gollodd yr hogiau eu mam, a phan ail briododd eu tad fe symudodd y ddau at eu modryb a'i gŵr i Cae Rhos, ffermdy nid nepell o Minffordd. I drigolion Llanrug – Cled a Bert Cae Rhos oedden nhw. Llwyddodd y ddau yn addysgol – aeth Cled i'r Brifysgol a dewisodd Bert Goleg Amaethyddol Madryn. Ymhen amser denwyd Bert i Llanberis gan ei fod a'i lygaid ar eneth ifanc ddeniadol a drigai yn Stryd y Dŵr. I ddechrau, rhyw sleifio draw i'w thŷ ar hyd y llwybr cefn fydda fo, ond pan ddaeth y garwriaeth i sylw'r gymdogaeth buan y priodwyd hwy yng Nghapel Ebenezer, Caernarfon, ym Mis Awst 1952.

Ar ôl cwblhau ei addysg amaethyddol fe benodwyd Bert yn brif reolwr adran dofednod Fferm Amaethyddol Glynllifon. Dysgodd genedlaethau o fyfyrwyr yn y grefft o gadw ieir a thyrswen. Tra'n byw yno fe anwyd Ann a Gareth, ond gan fod y lle mor anghysbell ac yn unig i ddau o blant bach fe symudodd y teulu ac ymgartrefu yn Stryd Thomas, Llanberis. Ymhen y rhawg fe symudodd y teulu i Garfield ar y Stryd Fawr.

Tra'n trigo yno derbyniodd Bert swydd fel prif drafaeliwr a chynrychiolydd Gogledd Cymru a'r Gororau i'r cwmni bwyd anifeiliaid – Spillers. Bu'n was da a ffyddlon iddynt am flynyddoedd a daeth yn gyfarwydd â ffermydd y gogledd yma i gyd. "Cefndar Bert Jones yda chi ynte?" fydda sylw sawl ffarmwr neu wraig fferm mewn sgwrs â mi tra byddwn innau ar fy nheithiau cerddorol. Ar ôl trosglwyddo eu cyfarchion i Bert, ei sylw bob tro fyddai,

"Na fo yli, dwi wedi deud wrtha ti dro ar ôl tro ei bod yn bwysicach i chdi gael dy nabod fel cefndar i mi na fel un o Hogia'r Wyddfa!"

Ar gae Wil Cefn Llwyd dros y ffordd i Fryngwyn y dois i sylweddoli fod Bert, fy nghefnider mawr, yn meddu ar ddawn anghyffredin fel pêl-droediwr. Yn llaw fy nhad y gwylw'n bob gêm ar brynhawniau Sadwrn ac o'r cyfnod hwnnw, ymhell bell yn ôl erbyn hyn, y daeth Bert yn arwr i mi. Bu'n chwarae fel chwaraewr proffesiynol am gyfnod i Gaernarfon, ond yn anffodus, oherwydd rheolau, ni chai byth eto chwarae i dimau amatwr megis Llanrug a Llanberis. Serch hynny, parhaodd i ymddiddori yn y gêm, ac yn oes aur pêl-droed Y Darans yn ystod y chwedegau, daeth yn gyd reolwr y tîm ynghyd â'r diweddar Roy Griffiths. Daeth llwyddiannau rhyfeddol i'w rhan. Oherwydd ei waith diflino i'r clwb ar hyd y blynyddoedd fe'i anrhydeddwyd yn

Aelod Oes. Tysteb i'w boblogrwydd yw'r ffaith i gemau pêl-droed yn y dyffryn gael eu gohirio ddiwrnod ei angladd.

Fyddai teyrnged i Bert ddim yn deyrnged lawn heb gyfeirio at ei hiwmor. Ei ddawn oedd y gallu oedd ganddo i ymateb i sefyllfaoedd, a gwneud hynny ar amrantiad. Mae'r hanesyn hwnnw amdano yn cyfarch llumanwr bach pwysig yr olwg yn rhan annatod o chwedloniaeth Cae Ffordd Padarn. Wrth iddo ddynesu atom i gymryd ei le ar y lein fe stopiodd y gwron a gwro i godi rhywbeth oedd ar y cae. Roedd darn o asgwrn yn ei law wedi ei adael gan gi neu anifail gwyllt o bosib. Ond yn ddigon rhwysgfawr ei natur fe daflodd y llumanwr yr asgwrn gan osgoi pen Bert o fodfeddi, ac meddai, "And this is where you keep your Llanberis butcher shop?"

"No," medda Bert fel ergyd o wn, "that's last week's linesman!" Welwyd mo'r pwysigyn ar gae Ffordd Padarn byth wedyn! Mae'r oriau difyr a dreuliais ar gae Ffordd Padarn, ynghyd â'r teithiau yn y car i'r gemau oddi cartref a hynny yng nghwmni Bert a'i ffrind agos, y diweddar Twm John, y diweddar Dereck Jones a Dici, yn oriau i'w trysori. Tystia y cefnogwyr ffyddlon sy'n ymgynnull ger y coed pin bob Sadwrn fod cael cwmni Bert a Twm John yn aml iawn yn well na gwyllo'r gêm, ac yn sicr yn well nag unrhyw gyffur i gadw'r felan draw!

Yr un effaith gafodd Bert ar aelodau o Gôr Meibion Dyffryn Peris. Llwyddais i'w berswadio i ymuno a daeth ag awel ysgafn ogleisiol, ddiereidus hefo fo i'r ymarferiadau. Cododd ysbryd y gymdeithas hefo'i sylwadau bachog, chwim. Tystia'r dorf oedd yn bresennol yn yr angladd mai moment wefreiddiol ac emosiydol iawn oedd gwrandao ar y côr yn canu ei hoff gan, yr "American Trilogy".

Afresymol ar fy rhan fyddai cwblhau y deyrnged hon a'ch gadael gyda'r argraff mai dyn eithriadol o ddoniol a chlyfar ei hiwmor yn unig oedd Bert. Fe gai gyfnodau tywyll fel y mwyaftrif ohonom. Gallai blymio i bydew o anobaith yn rhwydd. Ei elyn pennaf oedd Henaint. Er i'r cenna hwnnw daflu popeth ato, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe frwydrodd i'r eithaf a'r funud olaf. Mi fethodd Henaint ei dric hefo Bert – mi fethodd yn ei ymdrech i'w wneud yn hen ddyn musgrell. Yn wir, bu'n rhaid i'r hen elyn gyfaddawdu a rhoi i mewn gan adael i ni fonheddw'r urddasol, yn gorfforol dalsyth a lluniaidd yr olwg, ac yn ifanc iawn ei feddwl a'i ffordd, a hynny, cofier, ar drothwy ei ddeg a phedwar ugain oed.

Roedd ei deulu yn bopeth i Bert – ac roedd Bert yn bopeth i'w deulu. Yn aml cyfeiriai at Megan fel ei gariad oes a'i angor, am Ann a Kel fel gofalwyr ffyddlon ac wrth law o hyd i wrando cri, am P.J. ac Anita am yr un gofal ac am y gwyliau teuluol oedd wrth fodd ei galon. Dotiai at ei wŷr a'i wyres, Gareth a Ceri, ac ymhyfyrododd yn eu llwyddiannau addysgol. Croesawodd Rhian i'r teulu gan ei wneud yn hen daid balch i Aled a Gethin ac, wrth gwrs, croesawodd Dennis ei frawd a'i briod Sera i'r gorlan deuluol a hynny a breichiau agored. Trwy Megan ei chwaer yng nghyfraith, Carys a minnau, cadwai i fyny ar hynt a helyntion ei nithoedd a'u teuluoedd ac hefyd ei neiaint a'u teuluoedd hwythau. Roedd cymdogion da yn bwysig i Bert a gwerthfawrogi eu cymorth bob amser. Dyn teulu a dyn pobl oedd o, ac rwy'n gwbl sicr y bydd ein hatgofion ohono yn falm ar y briwiau a deimlwn o'i golli.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ARVONIA

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk



Diolch Dymuna Ann Jones, Stryd Newton, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn ar ddatlu ei phen-blwydd yn 70 oed.

Oedfaon Capel Coch am fis Mawrth

Sed: Mr Euron Hughes 10yb, DIM OEDEFA 5yh.

12fed: Y Gweinidog 10yb, Oedfa Moli 5yh.

19eg: Cyfarfod Gweddi 10yb, Parti Bytholwyrdd 5yh.

26ain: Oedfa Deulu 10.30yb.

Profedigaeth/Diolchiadau

Ar Ionawr y 1af, 2017, fe fu farw Dafydd Huws (Ty'n Rhos) yn frawychus o sydyn yn 70 mlwydd oed. Colled a sioc fawr i'w deulu, ffrindiau a'r gymuned gyfan. Dymuna Llioni, Lliwen, Llinos, Shirley a'r teulu i gyd ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad ar golli Dafydd mor sydyn ac annisgwyl.

Diolch hefyd i E.W. Pritchard am eu gofal a'u trefniadau, i Gôr Dyffryn Peris am eu rhan ac i'r Parch John Pritchard a'r Parch Marcus Robinson am

Llongyfarchiadau i Ken a Mair Jones, 19 Maes Padarn, fydd yn dathlu Pen-blwydd Priodas Ddiemwnt mewn ychydig ddyddiau. Fe'u priodwyd yng Nghapel Nant Padarn ar y 23ain o Fawrth 1957, gyda'r Parch Meurig Daniel yn gweinyddu a Mr Aled Owen wrth yr organ. Mae'r llun wedi ei dynnu yn y Ffestri, tu cefn i'r Capel, ac mi fydd llawer o gyn-aelodau'r Capel yn cofio'r llun mawr o Iesu Grist oedd yn hongian ar y mur sydd tu ôl i'r pâr priod.

Tywysogion Gwynedd yn Llanberis



Yn y Ffestri Llanberis ar y 12fed o Fawrth gyda chymorth Hunaniaeth, bydd Rhys Mwyn, Rhian Cadwaladr ac Ann Catrin yn frwdfrydig creu gweithgaredd o hwyl i blant 7-11 yn Gymraeg. Gallwch ddisgwyl pawns (1.00 tan - 4.00yh) llawn hanes, drama a chreu, llawn dychmyg a hwyl gan ddod a'n hanes ychydig yn agosach atom drwy drafod a bod yn rhan o ddychmygu yr hyn a ddigwyddodd wrth y llyn. Stori, gwaith llaw ac ail gerdded camau Tywysogion Gwynedd yn Llanberis.

eu gwasanaeth yn yr Eglwys a'r Amlogfa.

Bydd y rhoddion er cof am Dafydd yn cael eu rhannu rhwng Elusen Awyr Las ac Ambiwllans Awyr Cymru.

Bert Pritchard Jones Dymuna Megan, Ann, Gareth a'r teulu oll ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a amlygwyd atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, taid a hen daid annwyl. Diolch yn

arbennig i Dr Robin Parry am ei ofal, ac i staff meddygfa Llanberis. Diolch am wasanaeth teimladwy gan y Parchedig John Pritchard a'r Parchedig Marcus Robinson a'r organyddes, Bethan Holding. Diolch i Gôr Dyffryn Peris am berfformiad bythgofiadwy. Diolch i Gwynfor a Jane (E.W. Pritchard) am eu trefniadau trylwyr ac i Westy Fictoria, Llanberis.



Arddangosfa J. Neville Foulkes

Bydd cyfle unwaith eto i ddarllenwyr yr Eco gael golwg ar waith y diweddar John Neville Foulkes yn y Mynydd Gwefru rhwng y 10fed o Fawrth a'r 10fed o Fai a fydd yn cael ei harddangos i gyd fynd a dyddiad ei i ben-blwydd yn 80 oed. Bydd cyfle hefyd i ymweld â Chanolfan Llanberis ar ddydd Sadwrn 11eg o Fawrth i weld detholiad arbennig o un o gampweithiau Neville gan yr arlunydd graffiti enwog Andy Birch ynghyd a murluniau eraill gan ieuenctid y pentref. Bydd y Ganolfan ar agor rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn Ganwyd Neville yn Llanberis ar 19eg o Fawrth 1937, ac yno y treuliodd weddill ei oes, ar wahan i ddwy flynedd yn y fyddin yng ngogledd Affrica. Er yn meddu'r ddawn a'r gallu roedd yn amlwg o'r cychwyn nad oedd ei fryd ar yrfa academaidd a gadawodd yr ysgol ar y cyfle cyntaf ac aeth fel amryw o'i gyfoedion i drin y garreg las yn chwarel Dinorwig. Wrth edrych yn ôl mae'n amlwg fod gwaith y chwarel wedi dylanwadu cryn dipyn arno ac fel y gwelwch caiff hyn ei adlewyrchu yn aml yn yr arddangosfa arbennig yma. Mae'r arddangosfa yn cynnwys rhan fechan o gasgliad helaeth o luniau a phob un ohonynt wedi ei arwyddo a'i ddyddio, ffaith sy'n ychwanegu at arbenigedd gwaith Neville.

Roedd yn gymeriad tawel a swil ond yn hynod o hoffus a mawr yw'r golled ar ei ôl. Diolchwn am ei ddawn a'i grefft arbennig ac am ganiatâd y teulu i ddangos detholiad bychan o'i waith unwaith eto ac i gydabod hefyd ei ofal arbennig o'i nai a'i ffrind mawr, Shaun.

Cam arall i'r Gorffennol



Ar ddiwrnod dadleuol urddo Donald Trump yn Arlywydd UDA, daeth torf gyffelyb i Lanberis i lansio llyfr diweddaraf Rhys Mwyn. Wedi ymgynnull yn Y Ffestri, cafwyd taith o amgylch pentref Llanberis, ymweliad â Ffestri Capel Coch, a diweddu yng nghastell Dolbadarn. Yn ôl wedyn am gawl blasus, prynu ac arwyddo'r llyfr a noson o adloniant. Pa well ffordd o lansio llyfr ar bwnc sy'n cynnyddu o ran poblogrwydd: archaeoleg a hanes. Roedd y gyfrol gyntaf, Cam i'r Gorffennol, yn canolbwyntio ar gyfrinachau archaeolegol safleoedd yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r ail gyfrol yn symud i'r gogledd-ddwyrain a'r gororau. Ac yn ei arddull sgwrsiol, ddifyr, mae'r awdur yn ein denu i ymweld â'r safleoedd hynny, sydd o bosib, yn eithaf dieithr i'r mwyafrif o Gymry cyfoes. Ond ar ddiwedd pob pennod ceir tudalennau taith sy'n tywys y darlennydd i bob safle.

Felly, os bydd gwyliau dramor yn debygol o fod yn ddrutach eleni, beth am ymweld â dirgelion ein gwlad ein hunain? Mae'r llyfr hwn yn arweiniad perffaith i gymryd y cam cyntaf i adnabod ac i ddeall ein hanes ein hunain. A chymryd cam arall i'r gorffennol.

BRYNREFAIL Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580

DINORWIG Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

Sefydliad y Merched Cyfarfu'r gangen leol yn y Caban nos Iau, Ionawr 19eg. Roedd y noson dan ofal y llywydd Pat Jones. Cafwyd noson ddifyr yn ei chwmmi yn adrodd ei hanes yn ystod ei blwyddyn fel Cadeirydd Sir Sefydliad y Merched a gweithgareddau dathliadau blwyddyn y canmlwyddiant 2015.

Nos Lun, Ionawr 23ain, aeth cynrychiolaeth o'r aelodau i Gyfarfod Blynyddol Grŵp Eryri o Sefydliad y Merched a gynhaliwyd yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Llanberis.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon Mawrth am 5 yr hwyr
5: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
12 Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan
19 Parch Gwenda Richards, Caernarfon
26 Parch R.O. Jones, Gaerwen

Profedigaeth Unwaith eto daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth un o'n ardalwyr, Mr Raymond Bower, Tan y Marian, y tro hwn. Bu farw ar 19 Ionawr yn 81 mlwydd oed yng nghwmni ei wraig yn Ysbyty Gwynedd.

Un o Swydd Efrog ydoedd Ray, a bu'n gweithio fel newyddiadurwr mewn swyddfa fechan yn Rotherham ar y papur wythnosol. Bychan iawn oedd cylchrediad y papur ond dyna lle y cafodd brofiad da, a thrwy hynny gallai ysgrifennu i'r wasg a'r BBC.

Yr oedd iddo dair chwaer ac un brawd a Ray oedd yr hynaf ohonynt. Bu i'w frawd, Maurice, ei ddilyn fel newyddiadurwr.

Pan yn dechrau gweithio yr oedd yn gohebu ar chwaraeon, ac yn gweithio ar benwythnos a gwyliau banc a olygai oriau hir a'r cyflog yn isel iawn. Oherwydd hyn bu i Ray ymgyrchu am well rheolau i newyddiadurwyr ac fe ddaeth yn Gadeirydd yr Undeb i gael gwell cyflog ac oriau i newyddiadurwyr ifanc.

Ar ôl gadael Lloegr daeth i fyw i Fangor, lle y bu iddo gael y swydd o Olygydd gogledd Cymru o'r Chronicle ar Stryd Fawr Bangor, tan iddo ymddeol yn 1989. Yn 1990 bu iddo ail briodi hefo un o swyddogion y Chronicle, sef Miss Betty Jones, a ddaeth yn Mrs Betty Bower, a bu i'r ddau gartrefu yn Tan y Marian. Yn sydyn iawn, daeth yn un o'r ardal a bu'r ddau yn barod iawn i gymryd rhan ym mhopath. Daeth pawb i'w hadnabod mewn byr amser. Byddai Ray yn mwynhau ysgrifennu a diddordeb mawr ganddo mewn chwaraeon, yn enwedig criced, pêl-droed a bocsi. Yr oedd yn ffrind mawr i'r cricedwr, Freddie Trueman. Bu iddo unwaith fynd ar daith hefo'r tîm criced i India a'r Dwyrain Canol. Yr oedd yn chwarae criced hefo timau lleol ac yn cael ei swyno hefo'r gamp, fel ei dad o'i flaen.

Fe fydd Ray yn cael ei gofio gel gŵr bonheddig gyda digon o hiwmor iach a gwên ar ei wyneb ac yn siaradus dros ben. Tra yn gweithio yn y Chronicle bu yn weithgar iawn yn casglu miloedd o arian i gael Sganiwr yn Ysbyty Gwynedd. Bu hefyd yn gweithio yn galed tuag at atgyweirio y pier ym Mangor.

Ar ôl dod yn un o'r ardalwyr yma bu iddo fo a Betty fod yn brysur er mwyn cael clwb i'r henoed. Dyna sut y daeth 'Clwb Orwig;' i fod lle y bu iddynt gasglu arian at lawer o bethau. Wedi hyn bu iddynt ymgyrchu i gael cofeb i'r chwarelwyr. Wedi peth amser daeth y gofeb a phlannwyd llu o gennin Pedr o'i hamgylch. Ymhen rhyw ddau fis bydd y cennin ar eu gorau a byddant yn edrych yn hynod o dlws.

Bu i Ray fyw ei fywyd yn llawn iawn er, yn y blynyddoedd olaf, ni fu ei iechyd yn rhy dda ond er hynny yr oedd ganddo diddordeb ym mhob dim.

Cafwyd gwasanaeth i gofio am Ray yn yr Amlogfa ym Mangor ar ddydd Mercher, 25 Ionawr.

Bu colli Ray yn golled i'r ardal ond i Betty, ei wraig, bydd y golled yn enbyd gan ei bod wedi rhoi ei bywyd i ofalu amdano. Bu yn hynod ofalus ohono ar hyd eu bywyd priodasol.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn hefo Betty ond rwyf yn sicr y bydd cofio hiwmor iach Ray yn dod ac ambell wên i'w hwyneb. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at y teulu oll. Nid aiff Ray ym angof. Bydd cofgolofn y chwarelwyr yn yr Allt Ddu yn ei ddwyn i gof am flynyddoedd lawer. Yn angof ni chaiff fod.

Cwyno Mae dipyn o gwyno yn yr ardal ar hyn o bryd, ond ymhen rhyw ddau fis arall gobeithir am yr haul, bryd hynny bydd pawb yn teimlo'n well.

Cofion at Mrs Megan Morris ym Mhlas Garnedd, Llanberis, pryd y bydd hithau yn edrych ymlaen am ei phen-blwydd yn 102.

Gwelliannau Racca-Brynrefail



Mae'r llun yn dangos gwaith ar hyd ymyl werdd y ffordd fawr o Groeslon Racca i gyfeiriad Brynrefail. Erbyn i'r copi hwn o'r "Eco" eich cyrraedd bydd y gwaith bron iawn wedi ei gwblhau. Felly, beth yn union sy'n cael ei wneud yno? Cafwyd ymateb gan swyddog o Wasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd yn datgan "fod y gwaith yn cael ei gyflawni trwy ddefnyddio arian grant sy'n gysylltiedig â gwella diogelwch y ffordd....bydd 335 metr o lwybr newydd yn cael ei adeiladu, a 410 metr o lwybr presennol yn cael ei uwchraddio.... Bydd y llwybr yn addas i gerddwyr a beicwyr. Fel rhan o'r gwaith bydd gwelliannau i'r gyffordd â Deiniolen, marciau ffordd ac arwyddion."

Teg gofyn, os oedd arian ar gael, pam dewis y rhan hon o'r ffordd? Oni fyddai creu "llwybr newydd" ar ymyl y briffordd i gyfeiriad hen lôn y Frican/Penllyn wedi bod yn fwy o fantais i drigolion Brynrefail, yn enwedig y rhieni sy'n dymuno cerdded eu plant i Ysgol Cwm y Glo? Dim ond gofyn.

grid 76 graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Mwy am Goed y Ddôl

Rhwng 1861 ac 1881 bu cynnydd sylweddol yn nifer y tai a adeiladwyd yng Nghoed y Ddôl. Eiddo Ymddiriedolwyr Tlodion Rhuthun oedd llawer o'r tir: dyna lle daeth yr enw Goodman Street, er enghraifft. Roedd masnachwyr eraill wedi gweld potensial gwneud arian o adeiladu tai yn yr ardal. Un o'r rhain oedd Thomas Henry Goodwin Newton o Warwick, oedd â diddordeb ariannol yn y fasnach lechi. Cafwyd adeiladu ar ei dir yntau hefyd, gan ddefnyddio tri o'i enwau bedydd i enwi strydoedd yng Nghoed y Ddôl: Thomas Street, Henry Street a Newton Street. (Ydi Henry Street yn enw sy'n dal i gael ei ddefnyddio heddiw?) Nid Newton ei hun fu'n gyfrifol am adeiladu Thomas Street, ond Isaac Hughes, ffotograffydd a oedd yn byw mewn carafan rhwng Water Street a Manchester Row yn 1881. Yn 1876 talodd flaendal o £255 am yr hawl i godi deg o dai ar dir Newton. Amcangyfrifid y gost o wneud hyn yn £1878, a benthyciodd Hughes £700 gan Gymdeithas Adeiladu y 'Cwm y

Glo Cambrian Benefit Society'. Roedd wedi talu'r cyfan yn ôl erbyn 1883, ac wedi byw am gyfnod byr yn Thomas Street, ymddeolodd i ardal Dyserth erbyn 1891. Bron na ellir disgrifio Coed y Ddôl yn ystod yr ugain mlynedd cyntaf hwn o'i fodloeth fel 'frontier town' ! Tyrrai pobl i mewn i'r tai newydd, ond roedd eu hamgylchiadau byw ymhell o fod yn dderbyniol. O ble deuai eu dŵr yfed? Oedd, roedd ffynnon yn amlwg yn Well Street, ond a oedd yn ddigonol i'r holl boblogaeth? A bu problemau difrifol ynglŷn â gwaredu carthion yma hefyd. Adeiladwyd capel gan y Methodistiaid - Gorffwysfa - ar waelod Goodman Street yn 1867, a chapel arall rhyw bum mlynedd yn ddiweddarach, gan y Bedyddwyr. Ond faint o effaith gafodd y capeli hyn ar boblogaeth Coed y Ddôl? Ar wahan i J. Evans, Llainwen, doedd dim un arall o ymddiriedolwyr capel Gorffwysfa yn byw yng Nghoed y Ddôl. 174 o aelodau yn unig oedd yno flwyddyn wedi ei adeiladu; nifer bychan iawn a

chysidro fod 120 ohonynt wedi symud yno o Gapel Coch. Erbyn 1877 roedd pryder, nid yn unig am amgylchiadau byw pobl yr ardal, ond am gyflwr moesol yr ardal hefyd. Dyma ysgrifennwyd ym mis Hydref y flwyddyn honno: "Credwn yn sicr pe adeiledid ysgoldy i gynnwys lle i 200 rywle yng nghymdogaeth uchaf o ran lleoliad ac isaf o ran moesau Coed y Ddôl, a sicrhau achos crefyddol er mwyn casglu ynghyd baganiaid yr ardal." Dyna'n union ddigwyddodd, wrth gwrs, ac erbyn 1882 roedd capel Preswylfa wedi ei agor yn y "gymdogaeth uchaf". Ond capel cenhadol oedd hwn ar y cychwyn, rhan o eglwys Gorffwysfa. Bum mlynedd yn ddiweddarach roedd yn cael ei gyfrif fel capel ar wahan i Gorffwysfa. Does wybod faint o 'baganiaid' rhannau uchaf Coed y Ddôl gafodd eu denu i'r capel newydd. Ond am ba hyd y parhaodd yr ardal yn cyflwr hwn - a diystyru eu cyflwr moesol honedig ar hyn o bryd - sef amgylchiadau byw anodd? Mae Job Owen (sy'n cael ei ddyfynnu yn Hanes Methodistiaeth Arfon) yn dweud: "Preswylid y rhan o Lanberis y saif Preswylfa ynddo gan y dosbarth tlotaf o'r bobl." Cafodd Job Owen ei godi'n

flaenor yng nghapel Preswylfa yn 1885. Sylwer mai Llanberis a ddefnyddia am yr ardal, ac nid Coed y Ddôl, ond does dim dyddiad i'r dyfyniad, ond roedd Job Owen yn parhau'n fyw pan oedd William Hopley yn paratoui Hanes Methodistiaid Arfon. Roedd yn dal yn fyw yn 1903 pan longyfarchwyd ei fab, Arthur am ennill gradd yng Ngholeg Caerdydd, ac fe'i disgrifir fel hyn: "unig fab Mr Job Owen, Llanberis, nid Coed y Ddôl....." Os oedd Job Owen eisoes yn flaenor mewn capel wedi ei leoli yng Nghoed y Ddôl, nid ceisio dweud nad oedd yn gysylltiedig â'r ardal a wna, ond ceisio cadarnhau mai fel Llanberis y dylid ystyried y lle bellach. A fu hynny'n llwyddiant? Araf fu'r newid. Yn 1908 cyfeirir at Yankee Street, Coed y Ddôl - ond o dan newyddion Llanberis a'r Amgylchoedd yn y papurau wythnosol. Felly hefyd yn 1910 pan gydymdeimlir â theulu rhyw John Jones a fu farw yn Heol Fawr, Coed y Ddôl. Ac ar ddiwedd y Rhyfel Mawr mae'r ardal yn dal i gael ei galw yn Coed y Ddôl, Llanberis. Ac wrth gwrs, mae rhai sy'n fyw heddiw yn cofio'r ardal yn cael ei galw'n Coed y Ddôl. Y mis nesaf cawn hanes un arall o'r adeiladwyr a fu'n gyfrifol am ddatblygu Coed y Ddôl.

Llythyr o Awstralia i Gwm y Glo

Gyda diolch i Menna Williams, Llanrug am ddwyn fy sylw at rifyn o Drysorfa'r Plant, fis Ionawr 1917; ganrif union yn ol. Ynddo cyhoeddir llythyr gan Judith Evans, "un o blant Cwm y Glo, Arfon", sy'n anfon at un o'i chyn-athrawon yn yr ysgol. Ei chyfeiriad yw Armstrong Road, Charters Towers, Queensland. Mae'n son fod llawer o Gymry yn byw yno, a bod eisteddfod wedi ei chynnal, ond "yn Saesneg yr oedd popeth yn cael ei gario ymlaen." Roedd hi a'i brawd, Mathew yn aelodau o gôr y plant a fu'n fuddugol. Dywed ei bod "wedi derbyn amryw o lythyrau o Gwmyglo er pan wyf yma, ac yn deall fod Cwmyglo wedi gwneud yn dda iawn mewn anfon dynion i faes y rhyfel." Mae'n parhau drwy ddweud ei bod "yn diolch fy mod yn Awstralia yn byw; mae hi yn dawl iawn yma; raid i ni ddim ofni i'r Germans ddod yma. Ond cofiwch chi, fod yma 32,000 o'r Germans yn byw yn Queensland.... roedd ganddynt gapel yma (sef Charters Towers) a gweinidog, ond erbyn heddiw mae'r capel wedi ei werthu." Roedd Judith ar fin sefyll arholiad i fynd i'r 'High School', a'r ysgol yn

cychwyn am wyth y bore hyd bump y prynhawn. Roedd ysgolion ar wahan i'r bechgyn a'r marchod. Pwy oedd y teulu hwn o Gwm y Glo felly? Yn ôl Cyfrifiad 1911 roeddent yn byw yn Bryn Hyfryd. Richard a Jennie Evans oedd y rhieni, ac y mae'r tad yn disgrifio'i hun fel 'miner mewn chwarel'. Fe'i ganed yn Nolwyddelen, a'i wraig yn Ffestiniog. Roedd yno bedwar o blant: Maggie Jane, 11 oed, Mathew, 9 oed (y ddau wedi eu geni ym Metws y Coed), Judith, 7 oed (geni yn Nolwyddelen) a Mabel, 10 mis oed (geni yng Nghwm y Glo). Dair blynedd yn ddiweddarach, roedd y teulu yn mudo am Awstralia, gan hwylio o Lundain ar 1af Gorffennaf 1914 ar long y Suffolk. Taith o rhyw bum mis i Brisbane, ond fod y teulu Evans yn glanio yn Townsville, Queensland. Prin felly fu eu arhosiad yn yr ardal hon, ond mae'n amlwg fod Ysgol Cwm y Glo wedi cael cryn argraff ar Judith, a bod llythyru gweddol aml rhyngddi a'i chyfoedion yno. Anhebygol yw fod unrhyw gysylltiad yn parhau rhwng disgynyddion y teulu ac ardal Cwm y Glo.

Ysgol Brynrefail rywdro yn y 1970'au.



Beth yw'r achlysur? A beth am yr holl enwau?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Ysgol Brynrefail



Math ar ei ffordd i Rydychen!

Daeth newyddion gwych i'r ysgol yn ystod mis Ionawr pan glywsom fod Math Roberts blwyddyn 13 wedi ei dderbyn i astudio yn Rhydychen. Fe wyddom i gyd pa mor anodd yw sicrhau mynediad i Rydychen ac mae'r ffaith bod Math wedi llwyddo i wneud hynny yn glod arbennig iddo ef, ei allu a'i dalent arbennig.

Bu'n rhaid i Math dreulio wythnos yn Rhydychen rhwng y Sed a'r 8fed o Ragfyr mewn gwahanol gyfweiliadau. Derbyniodd ddau gyfweiliad, un gan diwtoriaid Coleg Lincoln ac un arall gan diwtoriaid ail goleg, ar hap, sef St. John's. Yr oedd y cyfweiliadau yn para tua awr o hyd ac, yn ôl Math, yn fwy o drafodaeth yn hytrach na chyfweiliad ffurfiol a oedd yn rhoi syniad iddo o ffurf cyfnodau tiwtora yn y brifysgol. Cafodd hefyd glyweliad gyda'i brif offeryn, sef y piano.

Yn ystod yr wythnos cafodd Math flas ar fod yn fyfyrwr yn Rhydychen trwy grwydro'r ddinas a chyfarfod darpar-fyfyrwyr posib eraill. Wedi hynny bu'n rhaid iddo aros am amser go hir nes derbyn llythyr ar yr 11eg o Ionawr yn cynnig lle iddo astudio Cerddoriaeth yn Ngholeg Lincoln, Rhydychen. Rydym yn hynod falch o lwyddiant Math yma yn Ysgol Brynrefail ac yn dymuno'r gorau iddo pan yn cychwyn ar ei gwrs yn yr Hydref. Da iawn a phob hwyl i ti, Math!

Cystadleuaeth athletau dan do – Chwefror

Diwrnod gwych eto i Ysgol Brynrefail y tro hwn yn y gystadleuaeth athletau dan do.

Y canlyniadau oedd:

Bechgyn blynyddoedd 7 ac 8 - 1af

Genethod blynyddoedd 7 ac 8 - 2ail (o 1 pwynt!)

Genethod blynyddoedd 9 a 10 - 1af

Bechgyn blynyddoedd 9 a 10 - 2ail

Llongyfarchiadau i Anya Williams, blwyddyn 9, am ennill y 3ydd wobwr am yr unigolyn 'all rounder' gorau ac hefyd i Cai Williams, blwyddyn 10, ddaeth hefyd yn 3ydd. Daeth nifer fawr o'r unigolion oedd yn cystadlu yn 1af neu 2ail yn eu gweithgareddau unigol, ac oherwydd hynny, byddant yn mynd ymlaen i fynychu treialon ar gyfer tîm Gogledd Orllewin Cymru yn ystod y penwythnos, Chwefror 18-19. Bydd ffeinal athletau dan do Cymru yn digwydd ar Fawrth 4ydd a'r Sed lawr yng Nghaerdydd.

Cân i Gymru 2017

Mae un o ddisgyblion blwyddyn 13, Gwion John Williams, wedi bod yn llwyddiannus yn mynd trwodd i rownd derfynol Cân i Gymru eleni. Cyfansoddodd y gân lwyddiannus ar y cyd â Hawys Williams o Goleg Meirion Dwyfor. Roedd Gwion yn adnabod Hawys gan ei fod yn ffrindiau gyda'i chefnider a sylweddolodd y ddau eu bod yn awyddus i gystadlu eleni. Gwion a Hawys sydd wedi cyfansoddi'r geiriau a Hawys sy'n gyfrifol am yr alaw. Enw'r gân yw Curiad Coll sydd, yn ôl Gwion, yn sôn am ddifrifoldeb sefyllfaoedd lle mae pobl yn clywed llawer o wybodaeth am wahanol bynciau ond heb fod yn deall y pynciau hynny yn iawn a'r problemau mae hynny'n ei achosi.

Mae 10 cân wedi eu dewis ar gyfer y rownd derfynol a fydd yn digwydd yng Nghaerdydd ar Fawrth 11eg. Bydd y rhaglen i'w gweld ar S4C ar y dyddiad yma pan fydd nifer o feirniaid sy'n enwau adnabyddus, megis Geraint Jarman ac Alis Williams, yn rhoi eu barn ar y deg cân cyn i'r cyhoedd bleidleisio am eu ffefryn.

Nid dyma'r unig lwyddiant mae Gwion wedi ei brofi yn ddiweddar. Ef hefyd yw prif gymeriad y rhaglen gomedi ddiweddar ar S4C 'Darren Drws Nesa'.

Wrth fod yn rownd derfynol Cân i Gymru mae Gwion yn dilyn ôl troed dwy o athrawon o'r ysgol sydd hefyd wedi profi llwyddiant yn y gystadleuaeth hon yn y gorffennol, sef Mrs Lowri Roberts a Mrs Sian Harris. Llongyfarchiadau mawr iddo a chofiwch bleidleisio dros y gân ar Fawrth 11eg.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”

Diwrnod Sgiliau Ysgol Brynrefail – Chwefror 16eg



Cafwyd diwrnod difyr a phrysur iawn yn yr ysgol ar ddydd Iau, Chwefror 16eg, yn ystod ein hail Ddiwrnod Sgiliau. Trefnwyd gweithgareddau i holl ddisgyblion yr ysgol a nod y diwrnod oedd datblygu nifer o sgiliau sydd mor allweddol i’n pobl ifanc eu datblygu – sgiliau fel cyfathrebu, rhifedd a datrys problemau. Thema Blwyddyn 7 oedd ‘Entrepreneurs Brynrefs’ a’u sialens oedd creu bar egni. Cawsant gyflwyniad egniol am ffitrwydd gan Marvin Pritchard o ‘Martial Arts Academi Porthmadog’, am ei gwmni llwyddiannus a’i waith fel hyfforddwr ffitrwydd. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn dysgu am brif syniadau a symudiadau Karate ganddo a gofynnodd iddynt greu bar egni ar gyfer ei gwmni. Bu pawb wrthi fel lladd nadroedd wedyn mewn pum gweithdy yn creu enw a slogan i’w bar, yn cynnal arbrawf llosgi bwyd, yn coginio, yn cyfrifo cost ac yn dylunio pecyn. Roedd rhaid i bawb wedyn gyflwyno eu syniad i banel o feirniaid yn arddull ‘Dragons Den’. Roedd gwaith, syniadau a chyflwyniadau’r disgyblion yn wych. Canolbwyntiwyd ar ddatblygu sgiliau STEM disgyblion Blwyddyn 8 drwy wneud gweithgareddau Mathemateg, Gwyddoniaeth,

Technoleg a Pheirianeg. Cawsant gyfle i wneud amrywiol arbrofion; i ddsygu am robotics a sut i reoli robotiaid gyda chyfrifiaduwr; ac i ddylunio ceir Formiwla 1, eu creu ac yna eu rasio ar drac Formiwla 1 yn y Gampfa. Waw – diwrnod cyffrous ta be! Os am weld clipiau fideo o’r disgyblion yn rasio eu robotiaid ewch i gyfrif trydar / twitter Ysgol Brynrefail – maent yn werth eu gweld. ‘Gorau Chwarae Cyd Chwarae’ oedd thema diwrnod Blwyddyn 9. Cawsant gyfle i gymryd rhan mewn gwahanol weithdai chwaraeon o gwmpas yr ysgol. Daeth yr Urdd i mewn i gynnal gweithgareddau a chawsant gyfle i gyfeiriannu o gwmpas yr ysgol. Bu’n ddiwrnod prysur iddynt ac yn gyfle i ddatblygu sgiliau megis cydweithio, dyfalbarhad, datrys problemau a chyfathrebu drwy gyflawni campau corfforol.

Bu’r diwrnod yn llwyddiannus iawn gyda phawb wedi mwynhau cael profi gweithgareddau gwahanol i’r arfer. Pwy a wyr, efallai bod entrepreneur y dyfodol, fel yr Arglwydd Alan Sugar neu feiciwr enwog y dyfodol fel David Brailsford, ymysg rhai o’r disgyblion brwdfrydig yma!

Llysgenhadon Aur Chwaraeon Ysgol Brynrefail



Diwedd y tymor diwethaf mynychodd llysgenhadon aur yr ysgol, sef y ddwy ohonon ni, Mair a Beca ynghyd â Gethin a Ryan, gynhadledd chwaraeon yng Nghaerdydd.

Bwriad y gynhadledd oedd datblygu sgiliau hybu chwaraeon ymysg Llysgenhadon aur Cymru.

Daliodd y pedwar ohonom drên i lawr i Gaerdydd gyda Llysgenhadon aur Dyffryn Ogwen, sef Sion ac Efa. Miss Llinos Dobbins, a’n hoff berson yn y byd – Hannah - sef swyddog 5x60 newydd yr ysgol oedd yn ein goruchwylio ar y daith.

Cychwynnodd y cyfarfod yn y bore ble derbyniodd holl Llysgenhadon aur Cymru gyflwyniad gan Richard Parks (anturiaethwr). Eglurodd y cyflwyniad bwysigrwydd chwaraeon ym mywydau pobl ifanc a pha gyfrifoldebau sydd gennym ni fel Llysgenhadon Aur.

Rhannwyd pawb yn dri grŵp ble cawsom y cyfle i gyfarfod Llysgenhadon aur eraill o ar draws Cymru. Roedd y diwrnod yn cynnwys tri gweithgaredd oedd yn datblygu sgiliau gwahanol.

Yn y gweithgaredd cyntaf, roeddem yn trafod ein dyfodol ni a sut roeddem yn bwriadu plethu chwaraeon i’n bywydau ac annog bywyd iach. Roedd yr ail weithgaredd yn ein dysgu a’n hyfforddi ar sut i ddefnyddio technoleg i hybu ac annog gweithgareddau

corfforol mewn ffordd saff ac addas. Roedd y trydydd gweithgaredd yn cyfarfod gyda Danielle Waterman (chwaraewr rygbi i dim GB yn Rio) a Thomas Haffield (nofio i GB). Sesiwn oedd hwn am sut i addasu a datblygu cynlluniau a sesiynau ymarferol a’n cymell i ddyfalbarhau i annog a hybu chwaraeon.

Ers y gynhadledd rydym wedi bod yn chwarae rhan flaengar gyda phwyllgor chwaraeon yr ysgol. Un o’r prif ddatblygiadau sydd wedi cael eu gwneud ers hyn yw ymweliad Tom Davis, sef arbenigwr Judo, drwy fudiad Sky Sports. Dysgwyd am sut i gynllunio sesiynau drwy ddefnyddio technegau proffesiynol megis y triongl gweithredu. Bwriad hyn oedd i benodi nod, gweithrediad a gwerthusiad.

Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yw i ganolbwyntio ar gynnal amrywiaeth o sesiynau gan ganolbwyntio ymhellach ar weithgareddau sydd tu allan i gwricwlwm yr ysgol ac i roi cyfleoedd i bawb.

Mae amserlenni 5x60 ar hyd coridorau’r ysgol y tymor yma, ar yr hysbysfyrddau ac yn nholedau’r ysgol. Mae croeso i bawb fynychu’r sesiynau.

Beca a Mair



Clwb 200 Clwb Pêl-Droed Llanrug

Ionawr 2017: Emma Williams (232) £40; Patsy Cropper (235) £20; a Sion Owen (42) £10.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb cant mis Chwefror: 1. Mrs Megan Roberts, Gregynnog; 2. Mrs Pat Larsen, Penisarwaun.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Chwefror 14, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Margaret, Llywydd y gangen. Cychwynwyd y noson gyda Chân y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Atgoffir pawb am Gaffi Steddod yr Urdd ar Fawrth 4ydd yn Ysgol Brynrefail, gyda diolch i bawb am y cyfraniadau.

Cynhelir Cinio'r Llywydd yn Plas Isa, Corwen, ar Fawrth 18fed. Cynhelir gweithdy Crefft ar Fawrth 25ain yn Neuadd Goffa Penygroes.

I Ddathlu'r Aur bydd y gangen yn talu am lyfr raffl Cenedlaethol i bob aelod a phob aelod i dderbyn bag sach am ddim. Mae Pat yn gwerthu tocynnau ar gyfer Raffl y Garthen. Bydd arddangosfa Dathlu'r Aur yn y Parc, Bala ar Mehefin 19-23. Y mae'r Rhanbarth yn gobeithio trefnu digwyddiad i Ddathlu'r Aur. Bydd y gangen hefyd yn dathlu gyda gweithgareddau yn adlewyrchu Treftadaeth 50 mlynedd.

Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars, Bangor, ar Fai 13. Mae angen talu £22 erbyn Mawrth 29ain os gwelwch yn dda.

Gŵr gwadd y noson oedd Bedwyr Rees yn sôn am ei anturiaethau ar hyd yr arfordir. Magwyd Bedwyr ym mhentref arfordirol Moelfre, Ynys Môn, yn fab i Valmai a'r diweddar Adrian Rees ac yn un o bedwar o hogiau. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Gymuned Moelfre ac Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, cyn mynd i Brifysgol Aberystwyth. Ei brif ddiddordeb yw hanes, rhedeg a chychod. Mae wrth ei fodd yn stwnshian gyda'i gychod, Urien, Barti Ddu a Dienw! Mae'n ddiolchgar i sawl athro da ond serch hynny 'yr ysgol orau', meddai 'ydi'r cartref ac aelwyd ei daid a'i nain lle cafodd addysg gwerth chweil gyda nifer o aelodau'r teulu yn gapteiniad llongau oedd wedi gweld rhyfeddodau'r byd. Dywed bod ganddo ddyled anfesuradwy i'w fam am ei fagu yn y pethau gorau. Ac mae nifer o wylwyr S4C yn ddiolchgar iddo yntau am ei raglenni addysgiadol a difyr a hynny mewn iaith gyfuriog a chyfoethog.

Môn oedd dan sylw, Môn Mam Cymru iddo ef ac i lawer Monwysyn. Cawsom wybodaeth werthfawr ganddo a dangoswyd mapiau a siartiau hynafol a bu'n olrhain hanes y Badau Achub ac enghreifftiau difyr o ddarogan a rhagolygon y tywydd. Difyr oedd ei sgysiau gyda nifer o drigolion Môn sy'n brwydro i gynnal enwau cynhenid ac yn gweld sut mae gweithgareddau awyr agored yn esgor ar enwau newydd. Difyr hefyd oedd ei sgwrs gyda'r sgwennwr dysgedig, Owie Jones, a'r straeon anhygoel a gafodd gyda Siôn am granca a sut mae enwau llafar yn gallu arwain at hanesion rhyfeddol.

Mae'n anhygoel cyn lleied mae rhywun yn ei wybod am yr hyn sydd ar garreg ein drws. Ond mae ei raglenni wedi deffro diddordeb llawer un am 'Hen Wlad ein Tadau'. Llongyfarchiadau a diolch, Bedwyr. Diolchwyd iddo am orig hynod o addysgiadol gan obeithio y cawn ei gwmi rhywbryd eto yn fuan. Tynnwyd y raffl ar enillydd oedd Mair. Diolch i Jean, Eryl, Eirian ac Iris am ofalu am y baned.

Nos Fawrth, Mawrth 14eg byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda 'Triawd Eden' gyda adloniant, lluniaeth a sgwrsio. Cofiwch ddod â'ch gwydr gwin!

Bert Pritchard Jones Dymuna Megan, Ann, Gareth a'r teulu oll ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a amlygwyd atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, taid a hen daid annwyl. Diolch yn arbennig i Dr Robin Parry am ei ofal, ac i staff meddygfa Llanberis. Diolch am wasanaeth teimladwy gan y Parchedig John Pritchard a'r Parchedig Marcus Robinson a'r organyddes, Bethan Holding. Diolch i Gôr Dyffryn Peris am berfformiad bythgofiadwy. Diolch i Gwynfor a Jane (E.W. Pritchard) am eu trefniadau trylwyr ac i Westy Fictoria, Llanberis.

Capel y Rhos Oedfaon mis Mawrth

Mawrth 5 - Y gweinidog y Parch. Marcus Wyn Robinson. Gweinyddir y Cymun.

Mawrth 12 - Parch. Megan Williams

Mawrth 19 - Y gweinidog. Mawrth 26 - Mr T. Alun Williams, Caernarfon.

Diolch Dymuna Mildred Pritchard, Crawia, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau a fu mor garedig tuag ati ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Diolchiadau Dymuna Ceri, Ifan a theulu Glan Gors, Ffordd Glanffynnon, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur genedigaeth Eban Dafydd.

Dymuna Glenda, Cefn Rhyddallt, a'r teulu ddiolch i bawb am eu negeseuon caredig, cardiau a rhoddion tuag at Ward Alaw yn dilyn eu profedigaeth o golli Tad, taid a hen daid annwyl, sef Eric Jones (Bontnewydd).

Diolch i Meinir Griffith a'r Cwmni am eu gwasanaeth teimladwy a thrylwyr ac i'r Parch Marcus Robinson am ei wasanaeth yntau ar ddydd yr angladd.

Dymuniadau Gorau i Elin, Glan Gors, Ffordd Glanffynnon, yn ei swydd newydd yn yr Adran Gofal Dwys, Ysbyty Walton, Lerpwl.

Marwolaethau

Ar y 7fed o Chwefror yn Ward Alaw, bu farw Kate Owen, 8 Hafan Elan. Roedd wedi byw yma am 8 mlynedd ac wedi bod yn hapus iawn. Brodor o Lanberis oedd Kate ac yn un o 11 o blant, teulu agos dros ben a fu yn gefn mawr iddi. Cydymdeimlwn yn fawr â'i merch, Barbara, Mike, Christopher, Jonathan a Paul a'u teuluoedd yn eu profedigaeth ac i'r holl deulu, yn enwedig ei chwaer Beti. Roedd ganddi lu o ffrindiau oedd yn cyfrannu i'w bywyd prysur a hapus ac fe ddaeth cymaint i'r Eglwys a'r Amlogsgfa i dalu y deyrnged olaf iddi. Bydd colled fawr ar ei hôl.

Yn dawel yn 96 mlwydd oed, bu farw Mrs Antonia Ferrarese, Belvedere, Ffordd Bryngwyn. Cafodd ofal caredig iawn gan ei meibion am gyfnod hir ac anfonwn ein cydymdeimlad llwyr atynt, John Carlos a Natalino.

Ein cydymdeimlad hefyd a

theulu'r diweddar William Owen Jones (Billy), 4 Tai Crawia. Roedd wedi byw yn y cartref gydol ei oes, ac yn frawd annwyl, gwr, tad a thaid arbennig.

Diolch Dymuna Mair a Mel, Carys a Todd, Aled a Sioned a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl, sef Delyth Hughes, Llys Elen, (Tandderwen, 6 Fron Goch, Llanberis gynt). Diolch yn arbennig i staff Plas Pengwaith, Llanberis ac i feddygon a staff Meddygfa Waunfawr am eu gofal tyner a charedig ohoni yn ystod ei gwaeledd. Diolch i'r Parch Ddr Carol Roberts am ei gwasanaeth teimladwy; i Dr William Munro am chwarae'r organ; i staff E.W. Pritchard, Llanberis am eu trefniadau trylwyr ac i Mr Aneurin Jones a'r staff, Gwesty Dolbadarn. Diolch i bawb am y rhoddion hael er cof amdani a rannwyd rhwng Meddygfa Waunfawr a Chyfeillion Plas Pengwaith.

Pen-blwyddi Arbennig Pen-blwydd hapus a dymuniadau gorau i Linda Jones, Pant Mwyn, a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, ar dathlu eu pen-blwyddi yn 70 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr.

Ymdeoliad Dymuniadau gorau i Gwynfa Pritchard, Cefn Llwyd, sydd wedi ymdeol ddiwedd Ionawr. Bu Gwynfa yn dod â llefrith i gartrefi cannoedd o bobl ar hyd y blynyddoedd a hynny drwy bob tywydd. Roedd yn dilyn ei rieni, Meira a'r diweddar Wil Pritchard, a fu'n gwasanaethu'r ardal am flynyddoedd lawer. Mwynha'r ymdeoliad, Gwynfa, a diolch am dy wasanaeth ffyddlon.

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï ar nos Fawrth, 21ain Mawrth, am 7.30 o'r gloch yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon. Y siaradwraig wadd fydd y Prifardd Elinor Gwynn a thestun ei chyflwyniad fydd 'Geiriau, Tirwedd ac Ysbrydoliaeth'. Estynnir croeso cynnes i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru.

Marchnad Ogwen

Neuadd Ogwen Bethesda

Ar yr ail Sadwrn yn fisol 9.30 - 1.30

Bwydydd • Creffttau • Lleol
www.marchnadogwen.co.uk



Teyrnged dad

Dad, Billy, yncl Billy, Wil, William Owen Jones ac, wrth gwrs, Taid

Cafodd ei eni ar 18fed o Ragfyr 1932 yn 4 Tai Crawia, Crawia, Llanrug, a fu'n gartref iddo am 84 mlynedd. Fe'i ganwyd i William ac Eirwen Jones, yr ail o 5 o blant a brawd i Brenda, Marion, Brian a'r ddiweddar Sally. Cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Llanrug cyn mynd ymlaen i Ysgol Brynrefail ar ôl pasio'r 11 plus.

Ar ôl yr ysgol, ei ddymuniad oedd gweithio yn chwarel Dinorwig fel prentis ffitar; swydd nad oedd yn hawdd iawn i'w chael bryd hynny, ond yno y bu am bron i ugain mlynedd. Roedd yn falch iawn o'i gysylltiadau gyda'r chwarel, ac wrth ei fodd yn mynd yn ôl i Amgueddfa Lechi, Llanberis, i fynd dros ei brofiadau a'i straeon difyr am y cyfnod a'r chwarelwyr diwylliedig, gyda Dafydd, Alan a finnau. Pan welodd bod dyfodol y lechan yn Ninorwig yn fregus aeth i weithio fel ffitar gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol – yn gyntaf yn yr hen ysbyty C & A ym Mangor ac yn olaf yn Ysbyty Gwynedd, cyn iddo ymddeol yn 1997.

Yn y cyfamser tra roedd yn dal i weithio yn y chwarel bu iddo gyfarfod ei wraig annwyl, y ddiweddar annwyl Bessie. Cawsant 57 mlynedd hapus iawn gyda'i gilydd, gyda 54 o rheini yn briod. Roedden nhw wrth eu boddau yn creu cartref cariadus yn Crawia, ac yn mwynhau bywyd.

Ar ôl bod yn briod am 6 mlynedd daeth newid mawr yn ei fywyd gyda dyfodiad Gareth, a finnau dair blynedd yn ddiweddarach. Dim ond atgofion melys sydd gennym ni o'r fagwraeth yng Nghrawia. Atgofion o fynd i bwll nofio Bangor ar fore Sadwrn i ddysgu nofio ac yna i ambell siop ar y stryd fawr – pick and mix yn Woolworths neu i WH Smith i edrych ar y cylchgronau pêl-droed neu'r recordiau diweddaraf. Doedd dad ddim yn ffan o bêl-droed, ond gan fod Gareth a finnau yn gymaint o gefnogwyr brwd o dim pêl-droed Lerpwl, trefnodd dad i ni fynd i Anfield, nid unwaith ond ddwywaith. Dwi'n siŕ y buasai di bod yn well gan dad fod adra yn y garej yn gwneud rhyw brosiect DIY neu fynd i wyllo Noson Lawen na gwyllo pêl-droed ond dyna sy'n creu'r atgofion y mae Gareth a finnau yn dal i sôn amdanynt hyd heddiw – wna i ddim sôn be oedd y sgôr yn y ddwy gêm!

Un o lwyddiannau mwyaf dad oedd creu gwisg ffansi Dalek a Dr Who i ni ar gyfer carnifal. Dim gwisg gyffredin oedd hi ond model soffistigedig wedi ei wneud o ffrâm fetel a phren. Fi oedd tu mewn i'r Dalek a Gareth oedd Dr Who. Mi fuo ni'n fuddugol mewn sawl carnifal, diolch i waith cywrain a chreadigol dad.

Os oedd gen i waith ar y tŷ neu'r car, y person cyntaf i mi droi ato oedd dad. Dyn trefnus tu hwnt oedd yn gallu troi ei ddwylo at unrhyw beth, a'r hyder ganddo i drio sgiliau newydd. Cefais oriau ac oriau o bleser yn ei gwmi yn y garej neu yn y tŷ yn rhoi help llaw iddo gyda nifer o brosiectau mawr a bach dros y blynyddoedd. Roedd yn fodlon iawn gwranddo ar fy syniadau pan oedden ni yn cyrraedd snag – ac yn aml iawn byddai'n dweud,

'O'n i'n meddwl bod pethau'n mynd yn rhy hawdd', ond gorchfygu'r broblem fyddai bob tro.

Dwi wedi cael yr hyder fy hun bellach i wneud prosiectau o gwmpas y tŷ gyda'r sgiliau dwi wedi eu dysgu gan dad. Byddaf yn dal fy hun yn dweud yr un pethau,

'Gweithiwr gwael sy'n rhoi bai ar i dŵls.'

'Mesur ddwywaith – torri unwaith.'

Mae hyn yn mynd â ni ymlaen at ddiddordebau dad. Yn barod dwi wedi sôn am y DIY ond bu ganddo lawer o ddiddordebau eraill dros y blynyddoedd.

Carafanio – roedd y pedwar ohonom yn mynd yn flynyddol am bythefnos o wyliau, byth yn aros yn unrhyw le am fwy na noson neu ddwy. Weithiau byddai ambell leoliad gwyliau ar y teledu a byddai dad yn gofyn,

'Ti'n cofio bod yn fanna efo'r garafan?' a gan i ni fod mewn

cymaint o lefydd gwahanol, yn aml iawn 'na' oedd yr ateb.

Diddordeb arall dad oedd ceir, neu yn fwy penodol – gyrru. Fo oedd y cyntaf yng Nghrawia i gael car, ac oherwydd hynny roedd mewn lle da i fod yn rhoi gwersi gyrru. Dwi'n siŕ iddo ddysgu yn agos i ugain person i yrru – nifer yn y cyfnod hynny cyn y gwersi ffurfiol – mae hyn yn dangos yr amynedd oedd ganddo. Dilynodd y diddordeb yma ymlaen i fod yn o sefydlwyr cangen Eryri o'r IAM (Institute of Advanced Motorists).

Roedd gan dad a finnau ddiddordeb yn adnewyddu hen beiriannau amaethyddol, a buom yn arddangos injan y bu'r ddau ohonom (gyda Dafydd yn ymuno â ni yn ddiweddarach) yn ei hadnewyddu yn Sioe Cymdeithas Hen Gelfi Ynys Môn yn Plas Coch am sawl blwyddyn.

Roedd dad hefyd yn gwirfoddoli gyda Cymorth i Ddioddefwyr (victim support) a pharhaodd i wneud hyn nes iddo gael swydd newydd ar droad y fileniwm.

Y swydd newydd honno oedd bod yn 'Taid' a gwnaeth hyn gydag arddeliad am 16 o flynyddoedd. Erbyn hyn roedd Catrin a Julie yn rhan o'r teulu a fyddai'r un o'r ddwy wedi gallu gofyn am dad-yng-nghyfraith gwell. Roedd nain a taid wrth eu boddau pan annwyd Dafydd, yna Elan, a 3 blynedd wedyn, Esme. Teg yw dweud eu bod nhw wedi gwirioni yn lân efo'r plantos. Dwi'n cofio'r sgwrs gyda mam a dad pan ddaeth yn amser i drafod trefniadau gwarchod Elan. Roedd y ddau, ar y cyd efo nain Menai, wedi bod yn ganolog i warchod Dafydd, ond roedd Catrin a minnau yn ymwybodol o'r gwaith caled o warchod un, heb sôn am ddau blentyn, felly awgrymodd Catrin a fi y buasai Dafydd ac Elan yn gallu mynd i'r feithrinfa ar ambell ddiwrnod i leihau y baich. Ond doedd dad ddim am weld hyn yn digwydd – dywedodd,

'Bydd Elan yn cael yr un chwarae teg a gafodd Dafydd – fydd Elan yn iawn efo ni.' Dwi'n falch iawn o gael dweud fod y ddau wedi bod yn fwy na iawn yng nghwmni nain a taid dros yr holl flynyddoedd. Datblygodd eu perthynas dros amser i fod yn un o fêts pennaf. Tro Dafydd, Elan ac Esme oedd hi wedyn i roi taid ar ben ffordd efo'r oes ddigidol wrth brynu ffôn neu ddewis teledu newydd. Roedd taid yn dal i nôl Dafydd ac Elan o'r ysgol bob dydd nes iddo fynd i'r ysbyty mis Rhagfyr. Roedd yn graig gyson, ddibynadwy a bydd hiraeth mawr ar ei ôl.

Mae'n wir dweud mai teulu oedd yr un peth pwysig i 'nhad. Mae sawl diffiniad gwahanol i ystyr teulu o wahanol fath, a bu dad yn driw i bob un. Roedd dad yn fodlon iawn helpu unrhyw un, ac os oedd o'n addo gwneud rhywbeth – roedd yn cael ei wneud bob tro. Os oedd disgwyl iddo fod yn rhywle am 3 o'r gloch, roedd yno am chwarter i 3.

Ond nid gwarchodwr plant oedd ei rôl olaf, ond fel gwarchodwr di-gwyn i mam. Doedd cariad dad tuag at mam erioed wedi ei gwestiynu, ond roedd ei ymroddiad llwyr tuag ati yn y 7 mlynedd olaf, yn ystod salwch anodd iawn, yn mynd y filltir ychwanegol. Doedd dim yn ormod iddo. Yn ystod naw mis olaf mam, roedd dad ei hun yn ymladd yn erbyn salwch difrifol, ond trwy hyn oll roedd yn dal yn rhoi eraill o'i flaen ei hun. Gofalodd am mam yn ddiflino gan ennyn edmygedd pawb o'i gwmpas.

Mae'r saith mlynedd diwethaf wedi bod yn rhai anodd iawn i ni fel teulu a hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i'r holl deulu a ffrindiau am eu cymorth a'u cefnogaeth. Roedd 'outings' mam a dad efo yncl Brian, anti Brenda ac anti Marian yn y blynyddoedd diwethaf yn codi calonau y ddau a buasant yn hawdd iawn yn gallu creu safle 'tripadvisor' e hunain ar ôl ymweld â'r holl lefydd bwyta gwahanol.

Felly, mae twll enfawr yn ein bywydau na chaiff byth ei lenwi, ond mae'r atgofion yn gryf, a bydd y gwerthoedd hyn yn parhau ynom ni.

Diolch am bopeth, dad.

Noson rhannu stwff a straeon am Chwarel Dinorwig yn Ysgol Gwaun Gynfi



Am fwrlwm a gafwyd yn ystod noson o stwff a straeon am fyw gyda'r chwarel a gynhaliwyd yn Ysgol Gwaun Gynfi ganol mis Ionawr. Roedd y disgyblion wedi gwirioni cael croesawu a gwrando ar gynifer â 21 o drigolion yn ystod y noson. Cawsant weld nifer o luniau difyr, tocyn clocio fewn a llythyr wedi'i sgwennu gan griw Caban i chwarelwr a oedd yn

ymddeol o'r chwarel. Cafwyd hefyd lluo o straeon ac mae trefnwyr prosiect Llwybr Llechi Eryri yn edrych ymlaen at gynnwys y rhain mewn app ffôn lôn i gyd-fynd gyda'r gylchdaith 85 milltir o hyd o amgylch pentrefi chwarelyddol Eryri. Bydd y deunydd hefyd yn cael ei gynnwys mewn byrddau gwybodaeth ac arweinlyfrer mwyn cyfoethogi profiad ymwelwyr

sy'n cerdded y llwybr. Diolch o galon i staff Ysgol Gwaun Gynfi am bob cymorth i sicrhau noson lwyddiannus tu hwnt. Os oes gennych chi stwff yn llechu yn eich cwpwrdd neu straeon am fyw gyda'r chwarel yn ddwfn yn eich cof cysylltwch â Siân Shakespear: 07890 613933 neu info@sianshakespear.co.uk i'w rhannu.

EILIR WYN WILLIAMS 1976-2016



Ganed Eilir ym mis Mehefin 1976 – yr ailfab o dri i Dafydd ac Ellen, Pentre Helen, Deiniolen. Ei ddiddordebau cynnar oedd pêl-droed a rhedeg, ond yn fuan iawn magodd gariad tuag at gerddoriaeth, ac er mai 'heavy metal' oedd ei dast ar un adeg, cerddoriaeth Bandiau Pres a gydiodd yn ei ddychymyg o go

iawn, pan ddilynodd o ei Dad a'i frawd hynaf, Dylan, gan ddod yn aelod o Fand Ieuentid Deiniolen.

Yn ystod ei flynyddoedd cynnar yn perfformio, daeth llwyddiant mawr i ran Eilir, drwy ddod yn fuddugol mewn nifer o Eisteddfodau – yn lleol ac ar lefel cenedlaethol.

Bu i Eilir symud yn ei flaen yn gyflym iawn yn ei yrfa cerddorol drwy ddod yn aelod o Fand 'mawr' Deiniolen, bandiau'r Sir ac hefyd ef oedd un o'r aelodau ieuengaf erioed i ddod yn aelod o Fand Cenedlaethol Ieuentid Cymru ar y pryd.

Ar ôl cwblhau ei arholiadau TGAU yn Ysgol Brynrefail penderfynodd Eilir ddilyn traed ei ffrind, y diweddar Iwan Williams, gan symud i ardal Manceinion i astudio Cerddoriaeth Bandiau ym Mhrifysgol Salford - profiad a all fod yn un anodd iawn i berson ifanc 16 oed o bentref bach fel Deiniolen - ond roedd ei gymeriad hoffus a chwareus a'i hiwmor brathog yn siŵr o'i helpu setlo yno! Ar ôl ychydig fisoedd cafodd Eilir gynnig i ymuno â band enwog Wingates, ond ei uchelgais oedd cael unwaith eto ymuno ag Iwan a dod yn aelod o'r band mwyaf llwyddiannus ar y pryd - Band YBS.

Tra yn ei ail flwyddyn yn y Brifysgol daeth yr alwad iddo, cafodd gynnig sedd hefo band YBS – rhywbeth a ddaeth â balchder mawr iddo'n bersonol, ac i'w deulu. Gan ei fod aelod o'r band hwn yn ystod cyfnod mwyaf llwyddiannus y band, cafodd Eilir y fraint o

fod yn fuddugol yn y 'British Open' a Phencampwriaeth Ewrop. Yn ystod ei yrfa gerddorol bu Eilir yn teithio'r byd fel aelod o'r amryw fandiau, gan ymweld â gwledydd megis Brasil, Ecuador, Norwy, Yr Almaen ac Awstria.

Tra yn astudio yn Salford, bu iddo gyfarfod â'i ddarpar wraig, Anna Hughes o Dreorci - hithau wedi symud i Loegr i fod yng nghanol y 'bandiau mawr'. Roedd yn amlwg i bawb fod y ddau ohonynt wedi dod o hyd i'w partneriaid perffaith - er fod dewis Anna o'i band yn destun ychydig o 'gythraul canu' rhwng y ddau ohonynt yn aml!

Wrth iddo ddod i ddiwedd ei gyfnod o astudio yn Salford, ac yn dilyn cyfnod byr o waeledd ac yntau ond yn 21ain oed, cadarnhawyd fod Eilir yn dioddef o'r afiechyd Multiple Sclerosis - ac er bod y cyflwr yma wedi achosi iddo orfod rhoi'r gorau i chwarae'r corn, mi lwyddodd i raddio o'r Brifysgol gyda BA mewn Cerddoriaeth.

Drwy gydol ei salwch roedd cymeriad ac agwedd hwyliog Eilir o hyd yn amlwg, ac ni chafwyd un gair o gŵyn ganddo tra'n ymladd yr afiechyd creulon hwn.

Yn anffodus, ar noswyl Nadolig 2016, tra roedd i lawr yn Nhreorci yng nghwmni Anna a'i theulu am y Nadolig, colodd Eilir ei frwydr ddewr, ac yntau ond yn 40 mlwydd oed. Er bod colli eu hannwyl Ei wedi bod yn sioc anferthol i'w deulu a ffrindiau, maent wedi cael cysur mawr o'r gefnogaeth a phob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd dros y cyfnod anodd diweddar. Ond, mae un peth wedi disgleirio'n amlwg drwy bopeth - y wên ddiraidus oedd ar wyneb Eilir drwy'r adeg - roedd yn gymeriad a hanner, a deud y lleiaf, ac mae bwlch mawr ar ei ôl, nid yn unig yn Neiniolen, ond yn Nhreorci a Manceinion hefyd, ble roedd gan Anna ac yntau lu o ffrindiau agos - a hoffai Dafydd ac Ellen, Dylan a Gethin, ddiolch i Anna a'u ffrindiau am yr holl gefnogaeth a ddangoswyd i Eilir yn ystod cyfnod ei waeledd.

Ysgol Gwaun Gynfi

Pennaeth newydd Hoffem groesawu Pennaeth newydd i'r ysgol, Mrs Catrin Gwilym, o'r Felinheli. Mae Mrs Gwilym yn bennaeth profiadol sydd wedi bod yn bennaeth ar Ysgol Beddgelert ers dros 12 mlynedd ac yn edrych ymlaen i gydweithio'n agos gyda'r disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned i ddatblygu'r ysgol ar gyfer y dyfodol.

Cystadleuaeth Pêl-rwyd Bu tîm o'r ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd ar nos Lun, Ionawr 18ed. Cafwyd gemau llwyddiannus iawn gan ennill un ohonynt. Roedd y plant wedi gweithio'n galed yn yr ymarferion ac ar noson y gystadleuaeth. Da iawn chi! Diolch i Anti Nia a Miss Donna am eu cymorth.

Noson Llwybrau Llechi Cafwyd noson ddiddorol tu hwnt ar nos Lun, Ionawr 18ed, pan daeth pobl o'r pentref i'r ysgol i rannu eu hanesion gyda phlant Blwyddyn 6 fel rhan o brosiect y llwybr llechi.

Cyngor Ysgol "Rydym wedi bod yn brysur iawn yn casglu arian i gael offer newydd yn ystod amser chwarae. Casglwyd dros £700. Hoffwn ddiolch i bawb yn y gymuned am fod mor garedig wrth ein noddi. Bu'r plant yn brysur yn rhedeg dros 200 milltir i gyd. Da ni wrth ein boddau gyda'r offer newydd." Eli a Sion Blwyddyn 6.

Cinio Tsieineaid Roedd yr ysgol yn dathlu diwrnod Tsieineaid

ar Ionawr 31ain a chafwyd cinio Tsieineaid blasus iawn gan Mrs Eleri Bean.

Prosiect Pollination Mae'r ysgol yn rhan o brosiect Pollination gyda ysgolion eraill yn yr ardal. Rydym wedi derbyn grant i'w fuddsoddi yn yr ardd ac mae'r ysgol wedi penderfynu prynu sied i gadw ein offer garddio ac rydym yn gobeithio adeiladu pwll yn yr ardd wyllt i denu anifeiliaid gwyllt. Os oes gan rhywun ddiddordeb ein helpu i ddatblygu'r ardd yn bellach, cysylltwch â'r ysgol.

Cystadleuaeth Chwaraeon Bu plant Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth chwaraeon yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon ar brynhawn Mercher, Chwefror 8ed. Roedd y plant wedi mwynhau cystadlu er nad oeddent ar y brig y tro hwn.

Ysgol Arweinyddol Creadigol Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn mewn grant yn ddiweddar gan y celfyddydau. Bydd artistiaid lleol yn cydweithio'n agos â'r ysgol am gyfnod o ddwy flynedd i godi safon gwahanol agweddu. Mae Leisa Mererid, actores o'r Felinheli, wedi dechrau gweithio'n agos gyda'r plant Meithrin yn dysgu caneuon ac yn datblygu llafaredd.

Trydar/ Twitter Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi ymuno â trydar i ddathlu llwyddiannau'r ysgol. Os hoffech ein dilyn ewch i @GwaunGynfi

Dymuna Mrs Phyllis Morris, Bryn Tirion, Rhiwen, ddiolch o galon am haelioni yr ardal a fu

mor garedig tra bu'n yr ysbyty, Plas Pengwaith ar Foelas yn ddiweddar.

Merched y Wawr - Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r flwyddyn o gangen Deiniolen nos Lun, 16eg Ionawr, yn Nh? Elidir, pan ddaeth Vicky Reid, perchennog siop flodau'r pentref, Lili'r Wyddfa, atom i roi arddangosfa o'i gwaith, a oedd yn cynnwys trefniannau Sul y Mamau ar Pasg, ymhlith eraill. Bu Vicky yn garedig iawn yn rhoi yn trefniant fel gwobr raffl ar y noson, a'r enillydd lwcus oedd Eirlys. Diolch i Vicky am ei chyflwyniad diddorol ac am ei rhodd.

Hefyd roedd dau dîm o Ddeiniolen yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Bowlio Deg Rhanbarthol yng nghanolfan Glasfryn nos Wener yr 20fed o Ionawr. Cafwyd noson dda o fowlio, ond dim gwobrau eleni! Ar yr 20fed o Chwefror mwynhaodd yr aelodau gwmni John Edwards o Lanfairpwll a ddaeth atom i gynnal Cwis hwyliog. Mae cyfarfodydd y gangen yn cael eu cynnal ar y trydydd nos Lun o bob mis tan yr haf. Mae mis Mawrth yn eithriad i'r drefn hon, oherwydd cynhelir ein Swper Gŵyl Ddewi nos Wener, y 10fed o Fawrth, yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, pan fydd Magi Tudur o Benisarwaun yn canu i'n diddori ar ôl bwyta. Mae croeso bob amser i aelodau newydd.

Diolch Dymuna Glenys Owen, Bwthyn Isaf, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau

lu am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80ain. Diolch Dymuna Dafydd, Eillen, Dylan, Gethin a'r teulu oll ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn colli eu hannwyl Eilir. Diolch hefyd i'r Parch John Pritchard, y Parch R.E. Hughes ac Annette Bryn Parri am eu gwasaeth, a diolch yn arbennig i Meinir Tros y Waun am ei gofal amhrisiadwy.

Cydymdeimlo Estynnir ein cydymdeimlad dwysafat Carolyn Williams, Maes Gwylfa, a'r teulu oll yn dilyn eu profedigaeth drist iawn yn ddiweddar.

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch Cynhelir noson dewis brenhines yr Ŵyl ar gyfer 2017 yn NhElidir ar nos Fercher, Mawrth 8fed, gyda disgo i ddilyn. Dewch yn llw i gefnogi.



Llongyfarchiadau i Elin Dafydd, am ddod yn 2il yn Cymdeithas Bandiau Pres, Pencampwriaeth Gogledd Cymru. Diolch i Mr. Gavin Wyn Saynor am ei hyfforddi.

Ffenestri CADNANT Windows
 iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
 13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Gwasanaeth Gwres a Plymio
 Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
 Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
 www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
 enquiries@theroyalvictoria.co.uk
 The ROYAL VICTORIA HOTEL
 Snowdonia

POSH PAWS
TACLUSO CWN
 Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
 Gwasanaeth Casglu a Danfon
 Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
 (01248) 671382 • 07935324193
 ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID
 Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
 ar gael bob nos
 rhwng
 7.00pm ac 11.00pm



Clwb Judo Segontium

Bu disgyblion y clwb judo yn llwyddiannus yn ddiweddar gyda phob aelod yn pasio eu graddio. Llongyfarchiadau mawr.

Cymdeithas Cae Chwarae Mae'n debyg fod y rhai sy'n crwydro llwybrau Caeathro wedi sylwi fod gwelliant sylweddol wedi'i gyflawni ar y mynediad o Gaeathro Bach i'r Cae Pêl-droed. Mae'r tramwy cul bellach wedi'i ledu sydd, ynghyd â llawr caled, ffens a wal gerrig, yn gwneud mynediad i'r cae lawer hwylusach – yn enwedig i rai efo plant bach mewn coets neu i rai anabl sydd angen defnyddio cadair olwyn. Prosiect a gychwynnwyd gan Bwyllgor Cymdeithas Cae Chwarae oedd hwn, ond rhaid cydnabod cyfraniad sylweddol Swyddogion Llwybrau Cyngor Gwynedd i gyflawni'r gwaith. Yn ariannol, partneriaeth oedd yn ysgwyddo'r baich gyda'r Gymdeithas Cae Chwarae a Chyngor Cymuned Waunfawr yn cyfrannu ar ran y gymdeithas leol. Diolch hefyd i'r trigolion cyfagos yng Nghaeathro Bach am eu cydweithrediad wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae'r Pwyllgor Cae Chwarae yn gobeithio y bydd y mynediad newydd yma (ynghyd â gataiau mochyn newydd bob ochor i'r cae) yn hwb i drigolion y pentref wneud mwy o ddefnydd o'r cae pan ddaw y gwanwyn a'r haf. Os oes unrhyw un efo syniadau am weithgareddau y gellir eu cynnal ar y cae, mae croeso i chi gysylltu efo unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

Clwb Merched Ar nos Iau, Ionawr 26ain cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr John Jones, Garreg Lwyd, sydd yn ymddiddori ers blynyddoedd mewn hen gelfi Cymreig. Roedd John a Deiniol Hughes, ei ffrind, wedi gosod arddangosfa ardderchog o greiriau yn y capel a chafwyd hanes bob un yn ei dro, yn hetiau sidan, canhwyllau brwyn, dodrefn derw, sychwr bara ceirch, cwiltiau cartref, offer lladd mochyn, bob darn â graen ac ôl gofal arno. Cawsom hanes y 'Telynor Dall', gweld darlun

cain ohono a chlywed am ei gysylltiad ag Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Roedd pawb wedi mwynhau a diolchwyd i John gan Rhian Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Eirian ac Elin Gwyn enillodd.

Bydd aelodau y clwb yn ymweld â Bragdy Llŷn yn Nefyn ar Chwefror 24ain a byddwn yn ymweld â Galeri, Caernarfon ar Fawrth 20 fed i weld perfformiad o Yfory, gan Theatr Bara Caws. Cysylltwch â Nia Jones, Y Dderwen (676567) am y manylion.

Profedigaethau Cofiw'n am Mr Dewi a Catrin Jones, Hywel ac Elan, 13 Erw Wen, ym marwolaeth tad Dewi yn Rhuthun, ac hefyd am Mrs Efina Hughes, Sian ac Ann, Gwendraeth, Erw Wen, sydd wedi colli gŵr a thad, sef Selwyn Hughes. Anfonwn gydymdeimlad dwys at y ddau deulu.

Croeso Deallwn bod Kevin a Fiona wedi ymgartrefu yn 12 Erw Wen. Croeso mawr i chi i Gaeathro.

Gwasanaethau y Capel

Mawrth Sed am 2 o'r gloch: Y Parch Marcus Wyn Robinson, ac i ddilyn am 3 o'r gloch cynhelir Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod Swyddogion am 3.15

Mawrth 19eg am 2 o'r gloch gwasanaethir gan Y Parch Huw Dylan Jones.

Tynfa Misol 1af M. Emsworth, The Barn (7) £40; 2il Myfyr Jones, Plas Glan Gwna (43) £25; 3ydd T. a M. Evans, Plas Treflan (72) £15; 4ydd Sion ac Anna, Y Wern (82) £5.

Cynefin Mae arolwg anghenion tai lleol o ardal cyngor Waunfawr yn cael ei gynnal gyda Chyngor Cymuned Waunfawr a Hwylusydd Tai Gwledig ar hyn o bryd gyda dyddiad cau ar y 10fed o Fawrth. Mae'r arolwg yn gyfle i bawb sydd angen symud i dŷ mwy neu dŷ llai, rhentu, prynu neu ran brynu a hynny ar gyfer pobl sydd am fyw yn yr ardal.

Mae'r Cyngor Sir a Grŵp Cynefin wedi prynu darn o dir yn Gerddi Bach gan y Cyngor Cymuned ar gyfer 4 tŷ i bobl leol. Mae croeso i drigolion lleol ymateb drwy lenwi'r holiadur sydd wedi ei yrru i bob eiddo yn yr ardal, neu ar-lein drwy <https://www.surveymonkey.co.uk/r/SJYYVC9>

Mae croeso i rai sydd yn dymuno symud yn ôl i'r ardal lenwi holiadur hefyd. Bydd ymateb i'r holiadur yn gymorth i gynllunio ar gyfer datblygu tai ar gyfer pobl leol i'r dyfodol ac nid yn unig ar gyfer y safle yma. Gall safleoedd eraill gael eu cysidro ond o gael gwybod yr angen!

Mae cyfle i bawb hefyd ymateb i gais gan y Cyngor Cymuned ar ddatblygu gweddill safle Gerddi Bach ar gyfer lle chwarae. Bydd cael gwybod beth yw dymuniad lleol o'r math o offer fydd yn ddymunol yn gymorth a bydd yr holiadur yn casglu'r wybodaeth yma.

Dyddiad cau 10fed o Fawrth.

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
 ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
 Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
 Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
 Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



FFRAMIA
 Parc Padarn Llanberis
 (01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
 William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.ffmpegia.com

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



DIONI
<http://dioni.co.uk>
 tel: 01341 247 200
 ebost: gwion@dioni.co.uk

CWMYGLO

Gwellhad Buan Anfonwn ein cofion gorau gan ddymunio gwellhad buan i Mrs Ann Hughes, 10 Dôl Afon, sydd gartref wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlad Yn dawel yn ei gartref, Eithin Duon, ar Chwefror 15fed bu farw Mr Aldo Bellini yn 93 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i feibion Vincent, Peter, Dino a'u teuluoedd yn eu profedigaeth lem o golli tad, tad-yng nghyfraith a thaid annwyl a charedig.

Undeb y Mamau. Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys Sant Mair bnawn Mawrth, 21ain o Chwefror. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan gynnwys Margaret Williams, fel aelod o'r newydd. Cafwyd gwasanaeth dan arweiniad Dorothy. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Hilda, Iris Thomas, Katie, Enid a Jeni S. Jones. Darllenwyd cofnodion cyfarfod Ionawr a'u derbyn fel rhai cywir. Bydd y Sêl Enfys yn cael ei chynnal ar 24ain o Fai, a lliw Bro Deiniol fydd melyn. Treuliwyd y pnaun yn trafod y faner newydd. Mae'r faner, a gynlluniwyd gan aelodau'r mudiad i ddatlu 125 mlynedd ers ei ddechrau, ar daith i eglwys i'r Ddeoniaeth. Mis Ionawr bu yn y Gadeirlan, cyn symud i eglwys Lanbeblig a Sant Mair yng Nghaernarfon ac Aber ym mis Chwefror. Mae pocedi yn y faner, a gofynnwyd i bob cangen roi emyn neu salm ynddynt. Gwnaethpwyd gwaith brodio yn dangos Lili'r Wyddfa, y mynyddoedd a'r Gadeirlan gan Joyce Ransom i gynrychioli Bro Deiniol. Cysegrwyd y faner yn ystod gwasanaeth yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Penrhyndeudraeth ar 18fed o Dachwedd y llynedd gan yr Archddiacon Paul Davies.

Gwesteion y cyfarfod oedd Joyce a Pat, a diolchwyd iddynt gan Marjorie. Enillwyd y raffl gan Iris Evans. Terfynwyd y cyfarfod drwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 21ain gyda'r Tad John Davies.

Un funud fach ...

ANOON

Mi ddylwn gofio ei henw. Ond mewn llai na thair blynedd, mi anghofiais bopeth am Anoon Aleu. Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai 2014 y clywais am y wraig hon o Dde Sudan. Yn ddeg oed, roedd hi a'i mam wedi ffoi o'u cartref yn neheudir Sudan i'r gogledd yn ystod yr ail ryfel cartref a ddiweddefodd y wlad honno yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Wedi sefydlu gwlad annibynnol newydd De Sudan yn 2011, dychwelodd Anoon, a oedd erbyn hynny yn briod ac yn fam i bump o blant, i'w mamwlad. Er eu bod yn gadael bywyd cysurus yn Sudan roedd Anoon a'i theulu'n gobeithio y byddent yn fwy diogel ac yn fwy rhydd yn y wlad newydd, er nad oedd ganddynt ar y cychwyn do uwch eu pen. Roedd mudiad yr oedd Cymorth Cristnogol yn ei gefnogi wedi rhoi arian i'r teulu i godi cartref, ac roedd stori Anoon yn cael ei hadrodd er mwyn annog pobl i'w helpu hi a'i thebyg yn Ne Sudan a gwledydd eraill trwy gyfrannu at apêl flynyddol Cymorth Cristnogol.

Roedd ei llun ar bosteri Wythnos Cymorth Cristnogol y flwyddyn honno. Roedd i'w gweld hefyd yn adrodd ei stori mewn ffilm fer a gynhyrwyd ar gyfer yr Wythnos. Erbyn hynny, roedd rhyfel cartref arall wedi cychwyn ers rhai misoedd, yng ngwlad newydd De Sudan y tro hwn. Dair blynedd yn ddiweddarach, mae'r rhyfel yn parhau. Rwyf wedi ail wyllo'r ffilm honno; roeddwn wedi anghofio stori Anoon a'i theulu. Gwaeth na hynny, mae'n rhaid cyfaddef fy mod i bob pwrpas wedi anghofio ei gwlad hefyd, a hynny er gwaethaf ymdrechion Cymorth Cristnogol ac eraill i'n hatgoffa o bryd i'w gilydd am y rhyfel ac am ddiweddefaint y bobl.

Ar Chwefror 20 eleni, daeth De Sudan yn ôl i'n sylw wrth i'r Cenhedloedd Unedig gyhoeddi Argyfwng Newyn yn y wlad. Mae 100,000 o bobl mewn peryg o farw o newyn, a thros filiwn yn agos at hynny. Trychineb pethau yw mai'r rhyfel dros dair blynedd a mwy sy'n bennaf cyfrifol am y newyn. Yn amlwg, mae ar bobl De Sudan angen cymorth. Dros y dyddiau nesaf, mi glywn ni apeladau am arian i'w cynorthwyo. Sut wnawn ni ymateb? A fydd rhai yn gwrthod cyfrannu am mai rhyfel yw prif achos y newyn? A fydd rhai yn gyndyn o roi, am iddynt lyncu dadleuon y Brexiteers mwyaf eithafol sydd am leihau'r cymorth a anfonir dramor gan fod arnom angen pob ceiniog yma yng ngwledydd Prydain? A fydd rhai yn cyfrannu'n hael am eu bod yn gweld cyfle i gynorthwyo pobl sydd wirioneddol ar eu cythlwg? Ac a fydd rhai yn gwneud hynny hefyd am iddynt gredu fod cynorthwyo'r newynog yn rhan o'u gwasanaeth i'w Harglwydd a'u Gwaredwr Iesu Grist?

JOHN PRITCHARD

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
 22 BLWYDDYN O BROFIAD
 Ffôn- 01286 677668
 Symudol- 07940023159
 Gladwyn Station Rd. LLANRUG, Caernarfon LL55 4AG
 Ebst- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
 Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
 YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS SELSIG CARTRE
 CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
 ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

GWAITH COFFAOL LLANRUG
 Ffôn Gwaith (01286) 672898
 Cartref (01286) 871833
 Symudol 07778 127394
 Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
 Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
 Gwaith Cerrig Beddi
 Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
 24 Awr y Dydd
 Capel Gorffwys Preifat
 Yn Gwasanaeth Yr Holl Ardal
 Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
 Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
 AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570



Ers i'r siop agor mae'r pentref wedi bywiogi. Mwy ohonom allan ar ein taith i'r siop a llawer mwy o sgwrsio a rhoi'r byd yn ei le ac, yn amlwg, yn gwerthfawrogi'r fenter.

Cynefin Mae arolwg anghenion tai lleol o ardal cyngor Waunfawr yn cael ei gynnal gyda Chyngor Cymuned Waunfawr a Hwylusydd Tai Gwledig ar hyn o bryd gyda dyddiad cau ar y 10fed o Fawrth. Mae'r arolwg yn gyfle i bawb sydd angen symud i dŷ mwy neu dŷ llai, rhentu, prynu neu ran brynu a hynny ar gyfer pobl sydd am fyw yn yr ardal.

Mae'r Cyngor Sir a Grŵp Cynefin wedi prynu darn o dir yn Gerddi Bach gan y Cyngor Cymuned ar gyfer 4tŷ i bobl leol. Mae croeso i drigolion lleol ymateb drwy lenwi'r holiadur sydd wedi ei yrru i bob eiddo yn yr ardal, neu ar-lein drwy <https://www.surveymonkey.co.uk/r/5JYYVC9>

Mae croeso i rai sydd yn dymuno symud yn ôl i'r ardal lenwi holiadur hefyd. Bydd ymateb i'r holiadur yn gymorth i gynllunio ar gyfer datblygu tai ar gyfer pobl leol i'r dyfodol ac nid yn unig ar gyfer y safle yma. Gall safleoedd eraill gael eu cysidro ond o gael gwybod yr angen!

Mae cyfle i bawb hefyd ymateb i gais gan y Cyngor Cymuned ar ddatblygu gweddill safle Gerddi Bach ar gyfer lle chwarae. Bydd cael gwybod beth yw dymuniad lleol o'r math o offer fydd yn ddymunol yn gymorth a bydd yr holiadur yn casglu'r wybodaeth yma. Dyddiad cau 10fed o Fawrth.

Sefydliad y Merched Yng nghyfarfod y Sefydliad ar Chwefror 2il croesawodd y Llywydd Carys Owen a

Christine Vasey yn aelodau newydd i'r gangen. Braf iawn oedd gweld aelodau ifanc yn ymuno. Yn ystod y cyfarfod cawsom hanes rhai o'r aelodau oedd wedi eu magu tu allan i Gymru: Cherry yn Glasgow, Joy yn Birmingham, Ann yn Ne Lloegr a Rose Ann, yr unig un o Gymru! Rhai o'r hanesion yma o amser yr Ail Ryfel Byd. Amser anodd iawn i Joy ac Ann, wrth gwrs, pan oedd yr Almaenwyr yn gollwng eu bomiau. Diolchodd Catherine iddynt am eu hanesion.

Y mis nesaf bydd yr aelodau yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio yn Bron Menai, Caernarfon.

Clwb 300 Enillwyr mis Ionawr oedd £30: Mrs Ellen Roberts, Bodrida; £20: Mr Haydn Jones, Rhandir Mwyn; £10: Dr Huw Roberts, Culfor, Ffordd Bangor, Caernarfon.

Y Cylch Meithrin Mae aelodau y Cylch Meithrin wedi bod yn cynnal gwahanol weithgareddau yn ddiweddar. Un prynhawn Sadwrn aeth y rheini a'r plant bach ar daith gerdded noddedig o amgylch y pentref.

Nos Wener, Chwefror 17, bu gêm Bingo yn y Ganolfan gyda gwobrau da i'r lein a'r 'tŷ llawn'. Roedd y Ganolfan yn eitha llawn.

Dyddiad i'w gofio – Nos Wener, Mawrth 31 am oddeutu 7 o'r gloch yn Nhafarn Bryn Eirion, bydd Ocsiwn gyda chasgliad da o eitemau gwerth chweil yn mynd o dan y morthwyl. Dowch yn llu i gael bargaen.

Dymuna'r Ysgol Feithrin ddiolch i bawb sydd wedi eu cefnogi yn y gweithgareddau.

Cychwyn Swydd Newydd Dymunwn yn dda i Sara, Gwastad Faes, yn ei swydd newydd yn Carlisle.

Ymddeoliad Dymunwn

ymddeoliad hapus i Ronnie Williams, Stad Tref Eilian, o'i swydd yn Archfarchnad Tesco, Caernarfon.

Dyweddio Llongyfarchiadau i Claire Hughes, Manchester House, ar ei dyweddian â Terry Williams o Dalysarn. Dymunwn bob hapusrwydd i chi eich dau.

Pen-blwydd Priodas Llongyfarchiadau i Norma a Cadwaladr (Wali) Evans, Llecyn Clyd, a fu'n dathlu eu Priodas Aur yn ystod y mis.

Llongyfarchiadau hefyd i Bethan a Robot Williams, Gwernydd, a fu'n dathlu eu Priodas Ruddem yn ystod y mis.

Dymunwn bob hapusrwydd i chi i'r dyfodol.

Pen-Blwydd Arbennig Yn ôl yn ystod mis Rhagfyr, bu Megan Sykes, Stad Tref Eilian, yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti yn dy yrfa. Sori am fod mor hwyr.

Pen-blwyddi Arbennig Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu Mrs Iona Williams, Llwydiarth, a Mrs Glenys Williams, Ty'n y Weirglodd, Betws Garmon, yn dathlu cyrraedd eu pedwar ugain oed. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonoch a phob dymuniad da.

Diolch Dymuna Iona Williams, Llwydiarth, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a chyfarchion a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig "Rwyf wedi rhyfeddu at garedigrwydd pawb tuag ataf ar achlysur fy mhen-blwydd yn 70 oed, yn deulu, ffrindiau a chymdogion. Diolch o galon, Irene, Pant Teg." Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti, Irene.

Adref o'r Ysbyty Rydym yn falch o gael croesawu Raymond a Pat Parry, Ffridd Felan; Eurwyn Williams, Parc; Delyth, Stad Llys y Waun ac Allan, Stad Tŷ Hen, adref wedi iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Hyderwn yn fawr eich bod yn teimlo yn well ac yn cryfhau ar ôl cael dod adref at y teulu.

Anfonwn ein cofion hefyd at Dafydd Beech, Rose Mount, a fu'n cael triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl. Mae adref yn gwella erbyn hyn.

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion cynnes at Tina Humphreys, Stad Ael-y-Bryn, sydd yn derbyn triniaeth a gofal yn Ysbyty Walton yn Lerpwl. Rydym i gyd yn meddwl amdanat ac yn dymuno'r gorau iti, Tina.

Cofion hefyd am y rhai o'r pentref sydd yn derbyn gofal yn eu cartref

Diolch Dymuna Annwen, Arnold a Beryl ddiolch i drigolion Waunfawr am yr holl alwadau ffôn, cardiau a rhoddion a dderbyniwyd ar golli eu brawd, Adrian, yn ôl ym mis Rhagfyr. Y swm o roddion a gasglwyd er cof am Adrian yw £600 a bydd yn mynd at y 'Denbighshire District Nursing'.

Eisteddfodau'r Urdd Daeth yn dymor Eisteddfodau yr Urdd eto eleni. Dymunwn yn dda i bob un fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch sydd yn cael ei chynnal ar Fawrth 4 yn Ysgol Brynrefail.

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Mawrth

- 5: Cyfarfod Gweddi
- 12: Parch Glenys Jones, Pwllheli
- 19: Mr Dennis Davies
- 26: Mr Glyn Owen.

GERAIN'T OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwryfai Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Beicio i bawb



Dylai beicio fod yn hygyrch i bawb - dyna farn menter gymdeithasol leol Antur Waunfawr, sy'n darparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu.

Mae'r Antur wedi ymuno â chwmni cartio dan do Redline yng Nghaernarfon, i gynnal sesiynau beicio dan do ar feiciau wedi'u haddasu. Mae'r sesiynau wythnosol wedi rhoi'r cyfle i gleientiaid yr Antur reidio'r beiciau o amgylch y trac cartio.

Mae Antur Waunfawr yn rhedeg 'Beics Menai', siop feics wedi'i lleoli yng Nghaernarfon, sy'n gwerthu, llogi ac atgyweirio beics i'r gymuned leol a thwristiaid. Prynwyd y beics wedi'u haddasu yn 2014 yn dilyn cymorth gan y Gronfa Cymunedau Arfordirol ar gyfer prosiect 'Cycling for All', ac mae'r fflyd yn cynnwys beics ochr yn ochr, beics tair olwyn tandem, a beics tair olwyn trydan a di-drydan ar gyfer plant ac oedolion.

Mae'r sesiynau beicio dan do yn rhan o brosiect newydd o'r enw Sgiliau Antur - prosiect tri mis wedi ei ariannu gan y Gronfa Gofal Canolradd - Grant Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Gymdeithasol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Dywedodd Huw Davies, dirprwy brif weithredwr Antur Waunfawr: "Nôd y prosiect newydd yw hybu iechyd a lles, ac i recriwtio gwirfoddolwyr. Mae beicio a iechyd a ffitrwydd yn agwedd bwysig o'r prosiect hwn, ac rydym yn ddiolchgar iawn i staff Redline am roi'r cyfle i ni redeg y sesiynau beicio dan do.

"Mae cleientiaid yr Antur wedi mwynhau'r sesiynau yn fawr - maent wedi cael cyfle i ymarfer corff, cael hwyl a gwneud defnydd o'r beics, gan fod y tywydd yng ngogledd Cymru wedi bod yn llai na ffafriol yn ddiweddar!"

Ychwanegodd Mr John Davis o Cartio Dan Do Redline: "Fel cwmni nid er elw a berchnogir gan y gweithwyr, mae'n bleser croesawu tîm Antur Waunfawr i ddefnyddio ein cyfleusterau yma yn Redline. Yn aml iawn, y rhwystr mwyaf i fynd ar feic yw hunan hyder. O hyn, daw cymaint o gyfleon. Mae ymroddiad y gofawr a brwdfrydedd y cleientiaid gyda gwahanol fathau o feics yn amlwg, a da yw gweld pawb yn mwynhau seiclo gyda'i gilydd."

Mae'r Antur yn recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer ei brosiect 'Sgiliau Antur'. Os hoffech chi gymryd rhan, cysylltwch â Elain Hughes ar 01286 650721, neu e-bostiwch elain.hughes@anturwaunfawr.cymru

Profedigaethau

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Billy, a oedd yn byw yn Crawiau, Llanrug.

Cydymdeimlwn yn ddwys â John a Nora Ferrerese, Y Gilfach, yn eu profedigaeth o golli mam John yn Llanrug.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Sulwen Lewis, Stad Bryn Golau yn ei phrofedigaeth hithau o golli ei chwaer a oedd yn byw yn ne Cymru.

Yn dawel yn ei chartref, 3 Stad Bryn Golau, yn 94 mlwydd oed bu farw Mrs Alys M. Hughes. Yn ardal y Waun y'i ganwyd a'i magwyd ac yma y bu'n byw drwy gydol ei hoes. Mam annwyl i Rita a Len, Margaret ac Ifor a Pat a Bernard. Nain a hen nain â meddwl mawr o'i hwyrion, wyresau, gor-wyrion a gor-wyresau. Roedd eu teyrngedau iddi yn amlwg yn profi eu bod hwythau yn

meddwl y byd ohoni hi. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â chi, deulu, yn eich colled a'ch hiraeth.

Dymuna Rita, Margaret a Pat, teulu y ddiweddar Alice Mary Hughes, ddatgan eu diolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a amlygwyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli mam, nain a hen nain wedi cystudd hir. Diolch yn arbennig i holl ofalwyr cartref Caredig am eu gofal difflino drwy'r blynyddoedd. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth teimladwy yn y Capel ac i'r organyddes, Mrs Catherine Jones. Ein diolch hefyd i'r Ymgymrwyr, E.W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr.

Dymunwn ddiolch am y rhoddion a dderbyniwyd er cof tuag at Feddygfa Waunfawr

Mrs Alys Hughes Waunfawr

I Nain Weun

Gawn ni hel atgofion hapus
Am funud fach, cyn dweud ffarwel,
I gofio Nain Weun, oedd yn un o fil,
Caredig ac addfwyn, ac wastad yn 'swel'.

Cyn cael gwyliau dramor ffansi
'Costa Brava' oedd Tŷ Nain.
Gwesty gora'r byd - 5 Seren,
Cael brechdan beicyn - llawn o saim!

Cerddodd ganwaith efo ni
Drwy lwybrau mwd - am hwyl a sbri!
Hel mwyar duon yn nhymor yr haf
A chacen wedyn ar aelwyd braf.

Diolch iddi am ei haddysg
Wrth fynd efo ni am dro,
Am gael nabod y briallu,
Enwau mynyddoedd ac adar y to.

Hogia'r Wyddfa oedd ei ffefryn,
Radio Cymru a Hywel Gwynfryn.
Mynd am 'run' yn car fo Taid,
A phincio'n drych cyn mynd oedd raid!

Gwersi bywyd cadarn, syml
Roddodd nain i ni i gyd.
Mae ein dyled i chi'n enfawr,
Cwsg yn dawel, gwyn eich byd.



Ar ben arall i'r lein

Cyn belled ac mae taflu pluen ar y dyfroedd yn y cwestiwn, tawel iawn yw hi, a felly mae pysgota i fod. Yn anffodus yn y dyddiau modern yma, neu fel yna mae pethau heddiw yn cael eu cyfeirio atynt, mae'n rhaid bodloni pob math o wleidyddiaeth a biwrocratiaeth cyn gweld ein ffordd yn glir i allu meddwl am gael mynd allan a rhoi rhywbeth yn y badell.

Cyn belled ac mae gwleidyddiaeth yn y cwestiwn, 'rydym fel pysgotwyr yn amheus dros ben fod ein llywodraeth yng Nghaerdydd 'na gyda rhyw agenda guddiedig i atal pysgota er mwyn gwireddu eu gweledigaeth fawr o weld yr holl boblogaeth yn cael mynediad i ddŵr a gweddill cefn gwlad doed a ddelo. Yn y mis a fu, sef Chwefror, fe welwyd rhyw ychydig o ganws yn cael eu padlo ar hyd y bae 'na at ddrws ffyrnt adeilad y Cynulliad. Maddeuwch imi ond tydw i ddim yn gwybod yn iawn be i alw'r lle 'na - ond, fodd bynnag, y pwrpas oedd i roi dylanwad ar y gwleidyddion i roi mynediad iddynt yn rhad ac am ddim ar unrhyw amser i holl ddyfroedd Cymru. Y peth truenus yw fod y gweinidog - un o Wrecsam neu rhywle fel yna - wedi adrodd ei bod yn edrych ar sut i roi mwy o hawliau tramwyo i'r cyhoedd yn gyffredinol. Y peth rhyfedd yw nad oes dim cyfeiriad at roi'r hawl i ni, sy'n byw yng nghefn gwlad, gael mynediad am ddim i unrhyw un o'u hadnoddau nhw yn y trefi. Mi fuaswn wrth fy modd yn cael mynd i wersylla am rhyw noson neu ddwy yn un o'r gerddi hyfryd sydd ynghlwm â thai y criw yma, y rhai sydd mor barod i adael i bawb a'i ful gael hawl tramwyo dros ein llefydd ni.

Un arall i roi hoelen yn y byd pysgota fel yr adroddais mis diwethaf yw fod Cyfoeth Naturiol Cymru i 'w weld yn benderfynol o ddod â deddfau i rym fel y buasai'n anghyfreithlon i gadw eog a brithyll môr, dal a rhyddhau yw'r geiriau mawr a ddefnyddir gan yr awdurdodau y dyddiau yma. Mae cryn wrthwynebiad i hyn oherwydd nid yw be mae pysgotwyr yn ddal yn gwneud dim gwahaniaeth i lefel stoc y pysg. Be sy'n cael yr effaith mwyaf niweidiol yw herw hela, llygredd, rhai dulliau o amaethyddiaeth ac, wrth gwrs, y ffermydd pysgod mawr mewn aberoedd ac oddi ar arfordir gorllewinol Iwerddon a'r Alban. Yr union lefydd sy'n rhaid i'r gleisiaid bach o afonydd Cymru eu tramwyo cyn cyrraedd moroedd yr Ynys Las a Gwlad yr Iâ, i besgi cyn

dychweled i'n dyfroedd. Ond na, does dim yr ewyllys i fynd i'r afael â materion o'r fath. Haws o lawer yw stopio sgota a medru dweud - ylwch be da ni di wneud er mwyn achub yr eog.

Ond yn rhywle ac yn y pen draw mi fydd yn rhaid gwrandao ar y cyhoedd. Dyna oedd gwreiddyn canlyniad etholiad yr Undeb Ewropeaidd, ac gyda'r cynigion rhyfedd yna mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gorfod gwrandao a gohirio eu syniadau tan 2018. Mae'n debyg na fydd llawer o newid yn eu meddylfryd, ond o leiaf mae'n rhoi mwy o amser i geisio eu cael i wrando ac i weithredu ble mae eisiau gweithredu.

Efallai bod ein dadl gyda'r economi wedi dechrau dod adref, sef bod pysgota yng Nghymru yn cynnal 1500 o swyddi a'r holl wariant ar bysgota yn £74 miliwn. 'Rydym yn gwybod yn y dyffryn yma faint o golled ariannol sydd wedi bod nid yn unig i'r gymdeithas bysgota ond i lawer o fusnesu eraill yn dilyn llygredd Padarn. Mae hyn yn awr wedi rhoi tro am y gwell a rhaid yw cyfalafu ar hyn, na nid oes eisiau cyfraith ychwanegol i rwystro'r atyniad lwyddo. Ond ran hynny os bydd cyfraith newydd yn dod i rym, pwy fydd yn ei gweithredu tybed gan, yn ôl be dwi di glywed gan yr hen aderyn bach 'na o'r Bae yng Nghaerdydd, mae mwy o swyddogion y wasg yn cael eu cyflogi gan Cyfoeth Naturiol Cymru na sydd yna o giperiaid afon yng Ngogledd Cymru - os nad oes na rywun yn gwybod yn well!

Un arall, sydd fel tisan boeth yw dyfodol y datblygiad arfaethedig yng Nglyn Rhonwy. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod Chwefror wedi rhoi'r caniatâd angenrheidiol i ollwng dŵr o'r orsaf i waelodion Llyn Padarn, gyda'r holl broblemau fydd yn codi wrth wneud hyn. Yn anffodus nid oes dim ynghlwm a'r penderfyniad sy'n egluro sut mae'r bysgodfa am gael ei gwarchod, nid yn unig pan mae'r orsaf yn gweithio ond chwaith yn ystod y tair blynedd y bydd yr adeiladu'n mynd ymlaen. Cyn dechrau'r holl broses mae un penderfyniad arall yn angenrheidiol, sef y gair olaf gan y Arolygaeth Gynllunio. Mae hyn i fod i gael ei gyhoeddi yn ystod Mawrth. Os bydd yn yn ffariol i'r cwmni, does ond gobeithio yn bydd yr arolygwyr, yn ei ddoethineb, yn rhoi amodau llym i warchod y bysgodfa.

Wel, dyna bregethu dros nifer o baragraffau, ond dyma sydd rhaid ymafael ynddynt cyn imi feddwl am wlychu pluen, ond gwlychu fydd hi ar y 3ydd o Fawrth, doed â ddelo. Rhyw awr neu ddwy i lawr y Finiog ac os di pethau'n ffariol yna rhyw awran fach yn Stablau wedyn. Ond mis nesaf dwi'n addo y bydd tipyn mwy am y 'sgota - os na fydd rhywbeth arall wedi codi ei ben yn 'de.

Huw Price Hughes.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Cyngor Cymuned Llanrug - Tendir Torri Gwair

Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn gwahodd personau neu gwmnïau i dendro am y cytundebau canlynol am gyfnod o 3 blynedd.

- Cytundeb torri llwybrau cyhoeddus;
 - Cytundeb torri gwair y fynwent;
 - Cytundeb torri gwair y meysydd chwarae
- Gellir tendro am un, dau neu'r cyfan o'r uchod.

Am ragor o wybodaeth ac i geisio ffurflen gais, cysylltwch â

Meirion Jones

Clerc Cyngor Cymuned Llanrug

7 Nant y Glyn, Llanrug, Gwynedd. LL55 4AH

Neu drwy e-bost at clerc@llanrug.cymru

Neu gellir ei lawr lwytho o wefan y Cyngor

www.llanrug.cymru



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Siân.Gwenllïan@cynulliad.cymru

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

Hyn ac Arall Cardiau Post Darluniadol o'r Wyddfa

Yn y flwyddyn 2015 gwerthwyd ym Merkurphila wrthrych o wlad Bosnia a Herzegovina (rhanbarth o Dwrci, dan lywodraeth Awstria, bryd hynny) ie! Cerdyn post darluniadol a ddanfonwyd i Awstria yn y flwyddyn 1898. Yn yr arwerthiant, talodd prynwr dros dair mil o bunnoedd am y cerdyn post dan sylw. Cerdyn a luniwyd o bren ydoedd a gynhwysai ar un ochr iddo lun Mosg Ali Pasha yn Sarajevo

Faint fyddai gwerth cerdyn post darluniadol, a'r cyntaf o'i fath, sef un o'r Wyddfa? Yn y flwyddyn 1894, a hynny yng Nghaeredin, yr Alban, a Scarborough, swydd Efrog, Lloegr, cynhyrchwyd y cardiau post darluniadol cyntaf yng ngwledydd Prydain.

Ar drywydd y flwyddyn 1894 euthum ati i archwilio'r ychydig gannoedd cardiau post darluniadol, i gyd o'r Wyddfa, sydd acw'n aros dros dro, cyn maes o law ymgartrefu o'r newydd, mawr obeithiaf, efo gweddill y casgliad cardiau post a gedwid cynt mewn blychau sgidiau ym Methel, Arfon, ond bellach efo'r enw Tan y ffordd iddynt, ac a ddiogelir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (y cyfan, lled-obeithir, o ddefnydd i'r rhai ohonoch yma yng Nghymru ein gwlad, a thu hwnt, sy'n ymddiddori yn hanes a datblygiad y cerdyn post yma yn ein hen wlad. Erbyn hyn gallaf nodi mai'r cerdyn post darluniadol hynaf o'r Wyddfa, ac un tra lliwgar, sy'n fy meddiant hyd yma ydyw'r un o gopa'r Wyddfa, Cwmni E. Longstaffe, ac iddo'r nod post Ebrill 8fed 1904.

Nos Lun, yr 17eg o fis Awst y flwyddyn 1903 disgrifir taith o Benygrwyd i gopa'r Wyddfa:

'A chyda ein bod wedi cychwyn dyma wlaw. Felly y bu ar hyd yr amser, weithiau yn bwrw ac weithiau yn peidio... O'r diwedd, daethom yn lled agos i'r copa, a chlywem bobl yn siarad wrth ddod i fyny o Lanberis. A chyda hynny gwelem ryw bethau tebyg i fwanod brain mewn mantelli, pethau tebycach i gysgodau na dim arall, yn myned heibio - pobl yn y niwl.'

Ar copa?:

'Dyna lle yr oedd ugeiniau o bobl - rhai yn bwyta, rhai yn ymochel rhag y gwlaw, a'r rhan fwyaf yn anfon post cards â lluniau arnynt i'w ffrindiau... y Perl Medi (1903) 270-71.

A oes c.p. darluniadol o'r Wyddfa gennych chi? Beth ydi'r dyddiad ran marc post a geir arno? A ydyw'n perthyn i'r blynyddoedd 1894-1903? A oes arno neges sy'n dynodi'r dyddiad y'i danfonwyd at gâr a chydnabod?

Dafydd Gruffudd Ifan

CWPAN Y BOBOL

Dyma gystadleuaeth all ddenu diddordeb ymysg chwaraewyr pêl-droed bro'r Eco. Ym Mehefin 2017 cynhelir Gŵyl Pêl-Droed draw yng Nghaerdydd gyda'r uchafbwynt wrth gwrs o lwyfannu Rownd Derfynol Cwpan Cynghrair Pencampwyr Ewrop yng Nghymru am y tro cyntaf. Yn amlwg mae sawl asiantaeth yn cyd-weithio i greu llwyddiant i'r fenter. Un o'r syniadau gan GPDC yw Cwpan y Bobol. Y bwriad yw cael chwaraewyr i greu timau i herio am y Gwpan yma. Bydd y rowndiau cynnar yn lleol, yna rhyng-ranbarthol gyda'r ffeinal draw yng Nghaerdydd. Y bwriad hefyd yw cwmpasu bob agwedd o'r bêl-droed.

Bydd cystadleuthau i : Oedolion +16 (dynion a merched), timau oedolion gydag anabled, pêl-droed cerdded dros 40, a thimau bechgyn a genethod dan 14 (i fyny i Bl. 9 ysgol uwchradd). Digon o sgôp felly. Os oes gan rhyw unigolion neu glybiau ddiddordeb gellir cael mwy o fanylion oddiar wefan CPDC. Ymlaen â'r cystadlu - a'r hwyl.

YMDRECH WYCH Caed cryn ganmoliaeth am berfformiad tim pêl-droed hyn merched Bethel wedi eu gêm yn erbyn Dinas Caerdydd yn rownd yr wyth olaf o Gwpan Cymru. Ni lwyddwyd i chwarae ym Methel ond draw ym Mhenygroes cafwyd chwip o gêm.

Wedi bod dan bwysau am 30 munud torrodd Bethel i lawr y cae ac o bas Ffion Williams rhwydodd Alaw Hughes yn gelfydd . Yn ôl daeth Caerdydd a sgorio ddwy waith - yr ail yn gic o'r smotyn ddadleuol yn nhyb rhai. Pan sgoriwyd trydedd gôl ar ddechrau'r ail hanner roedd yn edrych yn ddu ar Fethel. Ond mae cryn gymeriad i'r tim a daeth gôl Katie Midwinter o 30 llath â'r gêm i'r berw. Ymlaen llifodd Bethel ond yr hwntws gafodd y gair olaf. Diwedd y daith i Fethel ond clod am berfformiad arwrol. Dyma'r mathau o gemau sy'n magu profiad a rhoddi chwaraewyr unigol yn lygaid dewiswyr rhanbarthol a chenedlaethol.

Bara menyn y gynghrair Ogleddol fydd hi rwan ond mae perfformiadau Bethel yn eu cadw yn gyfforddus yn y gynghrair. Mae'n ymddangos mai draw at y Cofis aiff y Bencampwriaeth eleni, ond gyda blwyddyn arall o brofiad bydd Bethel yn heriol eto y tymor nesaf. Yn galonogol iawn mae'r timau iau - yn eu tymor cyntaf - hefyd yn cynhyrchu perfformiadau safonol o wythnos i wythnos. Edrychwn ymlaen i'w croesawu yn ôl i Gae Coed Bolyn yn y dyfodol agos.

Chwarae i garfan Cymru Llongyfarchiadau i Jack Burman o Lanrug ar gael ei ddewis i chwarae mewn gêm gystadleuol yng nghanfan Cymru yn ystod mis Chwefror. Rhannwyd y garfan i dimau'r gogledd a'r de, ac o fewn wyth munud cyntaf y gêm roedd Jack wedi sgorio i dim y gogledd. Aeth hogia'r gogledd ymlaen i ennill y gêm o 5 gôl i 2. Cynhaliwyd y gêm ar Barc Latham, Y Drenewydd. Yn ystod gwyliau hanner tymor roedd Jack eto yn rhan o'r garfan a dreuliodd ddau ddiwrnod o ymarfer ar gae TNS yng Nghroesoswallt.

Y TIMAU LLEOL Gyda'r Eco yn mynd i'w wely ychydig iawn o gemau chwaraewyd yn ystod y mis. Drwy guro Llanrwst 3-1 llwyddodd Llanrug i ddringo o dri isaf y gynghrair. Caed buddugoliaeth dda gartref o 4-1 yn erbyn Gaerwen yng Nghwpan Mawddach. Byddent yn herio Llangefni neu Llandyrnog i ffwrdd yn y rownd gyn-derfynol..

Chwaraeodd Lanberis i ffwrdd yn Llandyrnog (2-2) ar gae bob tywydd y Bala. Tybed sut brofiad oedd hyn? Ai hyn yw'r ffordd ymlaen i glybiau chwarae ar y caeau pob tywydd safonol yma fel Y Bala a Nantporth er mwyn arbed y llwytho annerbyniol o gemau diwedd y tymor. Y Sadwrn canlynol amlygwyd y diffyg cysondeb trwy golli o 4-0 draw yn Llanellwyl. Mae Llanrug a Lanberis ymysg y pedwar isaf yn y gynghrair bellach ond gyda Llanrug a sawl gem mewn llaw ar dimau uwch eu pennau.

Symudodd Waunfawr ymlaen i ail rownd Cwpan Meditel gan guro'r Howgets o 4-0. Prif darged Waunfawr eleni fydd y Cwpan Iau. Byddant yn gobeithio cyrraedd yr wyth olaf drwy guro ail dim Llanfairfechan. Os yn llwyddiannus byddant yn wynebu taith i dim ieuenctid Rhyl.

70@70 Her y Golygydd

Yn ystod y mis bydd y golygydd yn cyrraedd oed yr addewid. Mae'n bwriadu dathlu'r dyddiad drwy feicio 70 milltir ar feic ymarfer yn y Ganolfan Tennis yng Nghaerdydd, a chodi arian tuag at Ysgol Pendalar. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu beic arbennig ar gyfer defnydd y disgyblion neu i gynorthwyo gydag addasu ystafell mewn canolfan sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Bydd cystadleuaeth i ddyfalu faint o amser a bery'r her, neu gellir noddi'r digwyddiad sy'n cael ei gynnal ar ddydd Gwener, 17eg o Fawrth. Derbynir cyfraniadau yn y Ganolfan Tennis neu gan Dafydd ei hun.

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR

DEWGS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

YSGOL YRRU

ELIDIR
DRIVING SCHOOL

07922121226

Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG
DSA Approved Instructor
Jacqueline Williams

Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

Chwaraeon

RÂS 7K BETHEL

Yn gynharach nag arfer cynhaliwyd y râs boblogaidd hon ac eto eleni denwyd dros gant o redwyr. Cyn y ras fawr, cynhaliwyd y ras hetar o gwmpas y pentref i'r plant iau. Braf eto eleni oedd gweld rhai o'r rhieni yn rhedeg gyda'r ieuencid.

Er y gwynt a'r smwclaw cafwyd perfformiadau da yn y brif râs. Yr ennillydd oedd Cai Jones o Riwas, cefnogwr selog o'r râs, mewn amser o 25:54. Yr oedd hi'n agos iawn ar gyfer tlws y merched gyda Ellie Thomas (31:25) yn trechu Petra Irvine o un eiliad.

Roedd elw y râs yn mynd tuag at goffrau Clwb Pêl-droed Bethel a throsglwyddwyd £300 i'r coffrau. Hoffai Sion Jones a'i gyd-bwyllgion ddiolch i sawl un am gefnogi'r trefniadau yn enwedig y rhai oedd yn goruchwylio o gwmpas y cwrs.



Hogia snwcer

Criw o hogia'r chweched Ysgol Brynrefail yn cael rhyw gêm fach o snwcer yn y Sefydliad Coffa yn Llanrug. Mae'r hogia yn ceisio cael o leiaf un gêm yr wythnos.

Enwau o'r chwith i'r dde

Tim Williams, Ben Jones, Osian Edwards, Harri Jones, Owen Gibbard



Clwb Judo Segontium - Caethro



Mae Clwb Judo Segontium wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn grant cist cymunedol yn ddiweddar i ddatblygu hyfforddwy yn y clwb.

Mae'r clwb cymunedol sydd yn cyfarfod yng Nghanolfan y Capel, Caethro pob nos Lun wedi bod yn rhedeg ers 10 mlynedd bellach. Mae dros 20 o blant yn mynychu a mwynhau y sesiynau hunan amddiffynol. Yn ychwanegol mae'r sesiynau yn datblygu hunan hyder, parch, sgiliau cymdeithasol a disgyblaeth.

Mae'r clwb yn gobeithio gallu hyfforddi hyfforddwr i allu cynnig mwy o sesiynau yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda ysgrifennydd y clwb Hannah Hughes ar 01286 672344 neu dilynwch y clwb ar Facebook - ClwbJudoSegontium



Sialens 500 milltir.

Chwi gofiwch gân y Proclaimers, rwy'n siwr: "I will walk five hundred miles..." Tra'n canu honno mewn sesiwn karaoke yn ystod y Nadolig y daeth y syniad o redeg 500 milltir yn ystod 2017 - a hynny mewn rasys swyddogol yn unig! Dyna felly fydd her Hugh Morgan o Fethel a Fiona Owen o Lanrug yn ystod y misoedd i ddod. A byddwn yn dilyn eu hynt a'u helynt yn yr "Eco" gydol y flwyddyn.

Cychwynnwyd ar y daith ar fore Calan, gyda Ras Llyn Llydaw; pum milltir o Ben Gorffwysfa ac o amgylch y llyn yng nghysgod Y Lliwedd a'r Wyddfa. Bore oer drybeilig, a'r llwybr yn hynod o fwdlyd; ond 495 milltir yn unig i fynd!

Yn ddiweddarach yn y mis, teithio i Feirionnydd a chwblhau Hanner Marathon y Gaeaf ar lwybrau coedwig Coed y Brenin. Cwrs caled, ond ei gwblhau gyda'i gilydd mewn dwyawr a hanner. Cyfanswm Ionawr: 18.3 milltir.

Llai o rasys ar gael yn ystod Chwefror, ond cwblhawyd Ras Moelyci (5 milltir), Ras Parc Penrhyn (3 milltir) a Ras Bethel (4 milltir), i roi cyfanswm o 12 milltir am y mis.

A thair galetach i ddod yn ystod mis Mawrth, sef Bwlch Maesgwm (6 milltir), Hanner Marathom Ynys Mon a Marathon Wrecsam.

Y BOWLWYR TEG

Nid oes gennyf gof o erthygl am fowlio deg yn yr Eco o'r blaen. Daeth cyfle bellach drwy berfformiad tîm Bowllo Deg Merched y Wawr, Bethel. Cafodd y tîm o chwech lwyddiant draw yng Nghanolfan Bowllo Deg, Glasfryn ger Y Ffôr yn ddiweddar. Yr achlysur oedd cystadleuaeth Rhanbarth Arfon o'r mudiad. Yn y broses llwyddwyd i guro timau o ganghenau mwy niferus fel Caernarfon a Phen-y-groes. Roedd 8 tîm yn cystadlu ar y noson. Yn amlwg, mae rhywbeth ynglyn a merched Bethel ym myd y campau ar hyn o bryd.



Un elfen o blaid y tîm yw bod tair ohonynt yn ymarfer yn rheolaidd yn y dull mwy confensiynol o fowlio yng Nghlwb Bowllo Mat Byr dan-dô Bethel. Arwahan i'r brif dlws



dyfarnwyd y Tlws am y sgoriwr uchaf ar y noson i un o aelodau tîm Bethel, Falmai Owen. Yn sgil y llwyddiant bydd y merched yn mynd ymlaen i Bencampwriaeth

Gogledd Cymru yn yr un lleoliad yn ystod yr haf.

Aelodau'r tîm oedd, Falmai Owen, Mary Evans, Eleri Warrington, Ann Elis, Mary Wyn Jones a Mair Price.